**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-0994-23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mehefin 2023

Annwyl Llŷr

Yn sgil cyflwyno Bil Seilwaith (Cymru) i'r Senedd ar 12 Mehefin, amgaeaf gopi o Bapur Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil. Mae'n ategu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy roi manylion y gwaith cyfrifo sy'n sail i'r costau ar gyfer yr opsiynau amrywiol a amlinellir ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu seilwaith yn y dyfodol, fel y gwelir ym Mhenodau 7 ac 8 yr asesiad.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL SEILWAITH (CYMRU)

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol
Papur Methodoleg

**Mehefin 2023**

# Cynnwys

Rhestr o Fyrfoddau 1

Adran 1 – Cyflwyniad 2

Adran 2 – Egwyddorion y Dull Gweithredu 3

Adran 3 – Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl 5

Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 1 – Gwneud dim. Penderfynu ar geisiadau seilwaith yn unol â'r trefniadau deddfwriaethol presennol 9

Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 2 – Sefydlu math newydd o ‘Gydsyniad Seilwaith Cymreig’ ar gyfer datblygiadau neu waith sydd â'r amcan o adeiladu a/neu newid defnydd i greu ‘Prosiect Seilwaith Cymreig’. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir 27

Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 3 – Sefydlu corff cydsynio annibynnol i benderfynu ar ‘Gydsyniadau Seilwaith Cymreig’ 44

Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 4 – Sefydlu cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson er mwyn i uned o fewn Llywodraeth Cymru benderfynu arnynt 60

Atodiad A – Dadansoddiad o gostau PCAC a Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith 64

Atodiad B – Ceisiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, o fis Ebrill 2013 tan fis Ebrill 2022 75

## Rhestr o Fyrfoddau

ACLl – Awdurdod(au) Cynllunio Lleol

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

DAC – Datblygiad(au) o Arwyddocâd Cenedlaethol

PCAC – Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

## Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Mae'r Papur Methodoleg hwn yn ategu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Seilwaith (Cymru). Mae'n rhoi manylion y gwaith cyfrifo sy'n sail i'r costau ar gyfer yr opsiynau amrywiol a amlinellir ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu seilwaith yn y dyfodol, fel y gwelir ym Mhenodau 7 ac 8 yr asesiad.

1.2 O ran fformat y Papur Methodoleg hwn, yn gyntaf mae Adran 2 yn nodi'r egwyddorion allweddol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r costau sydd yn yr asesiad. Mae Adran 3 yn nodi'r data sylfaen, y rhagdybiaethau a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i bennu'r costau a amlinellir o dan bob un o'r opsiynau yn yr asesiad.

1.3 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion ac esboniad ar gyfer yr adrannau fel y'u hamlinellir uchod a'r opsiynau penodol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol lle bo angen rhagor o fanylion. Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond nid ydynt wedi cael eu talgrynnu yn y papur hwn.

## Adran 2 – Egwyddorion y Dull Gweithredu

2.1 Mae rhai egwyddorion allweddol wedi cael eu defnyddio i bennu'r costau a nodir yn yr asesiad, fel a ganlyn:

- Mae'r costau'n seiliedig ar gyfnod arfarnu pum mlynedd ar gyfer yr opsiynau amrywiol, o 2024-2025 tan 2028-2029.

- Mae'r amcangyfrifon o gostau'r opsiynau amrywiol yn yr asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Arup Planning Consultations ar geisiadau seilwaith a gyflwynwyd i awdurdodau cydsynio perthnasol rhwng mis Ebrill 2013 a mis Chwefror 2019 (gweler 'Adroddiad Arup' yn y troednodyn)[1]. Casglwyd tystiolaeth bellach o niferoedd y ceisiadau seilwaith er mwyn ategu Adroddiad Arup rhwng mis Mawrth 2019 a mis Ebrill 2022, gan sicrhau bod y costau mor gyfredol â phosibl ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon. Caiff y cyfnod cyfan pan gafodd ceisiadau seilwaith eu hasesu, rhwng mis Ebrill 2013 a mis Ebrill 2022, ei alw'n 'y cyfnod a aseswyd' at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- Ystyrir mai'r costau o Adroddiad Arup yw'r dystiolaeth orau sydd ar gael a'u bod yn gynrychioliad cywir o'r costau y byddai rhanddeiliaid yn mynd iddynt heddiw am wahanol fathau o geisiadau seilwaith. Cydnabyddir y gallai newidynnau olygu y bydd rhai costau fymryn yn uwch neu'n is mewn blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, gan eu bod wedi'u casglu dros gyfnod hir, gyda nifer o gostau penodedig wedi'u cynnwys, megis ffioedd ceisiadau, ystyrir ei bod yn briodol eu cymhwyso ar eu ffurf bur heb wneud addasiadau iddynt.

- Daw'r costau i randdeiliaid am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar geisiadau seilwaith yn bennaf o Adroddiad Arup neu o waith ymchwil desg a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar gostau PCAC/Llywodraeth Cymru ac ACLlau am gymryd rhan yn y broses.

- Mae'r costau terfynol wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn sicrhau eglurder a hwylustod cyfeirio wrth gymharu costau. Mae'r symiau ariannol wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (h.y. heb gynnwys pwyntiau degol). O ganlyniad i hynny, bydd lwfans cyfeiliornad bach gan fod y cyfrifiadau gwreiddiol wedi cael eu gwneud gan gynnwys pwyntiau degol, er mwyn sicrhau cywirdeb.

- Nid yw niferoedd y ceisiadau wedi cael eu talgrynnu yn y gwaith cyfrifo er mwyn sicrhau adlewyrchiad mwy cywir o'r costau o dan bob opsiwn dros y tymor hwy. Er enghraifft, mae ceisiadau DAC wedi cael eu cyfrif fel 6.0 a 4.9, a heb gael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

- Mae chwyddiant wedi cael ei gymhwyso at y costau hanesyddol lle bo hynny'n berthnasol, drwy uwchraddio ar sail ffigurau'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros o fis Tachwedd 2022. Mae hyn yn sicrhau bod y costau yn yr asesiad yn gywir ar adeg ei gyhoeddi, gan eu bod yn seiliedig ar brisiau 2022/23. Er gwybodaeth, mae'r ffigurau datchwyddydd cynnyrch domestig gros a gymhwyswyd at ddibenion yr asesiad wedi'u cynnwys yn Nhabl A isod.

---

[1] Mae tystiolaeth o'r ceisiadau seilwaith i'w gweld yn yr adroddiad: Research into the Cost of Infrastructure development in Wales, Arup, Mawrth 2019.

| **Tabl A – Uwchraddio costau hanesyddol yn unol â phrisiau 2022-23 gan ddefnyddio cyfres y datchwyddydd cynnyrch domestig – ar sail data mis Tachwedd 2022[2]** | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cyfres wreiddiol | Mynegai<br>*2022-23 = 100* | Ffactor uwchraddio |
| 2011-12 | 82.35 | 78.53 | 1.273 |
| 2012-13 | 83.77 | 79.89 | 1.252 |
| 2013-14 | 85.51 | 81.55 | 1.226 |
| 2014-15 | 86.46 | 82.45 | 1.213 |
| 2015-16 | 87.14 | 83.11 | 1.203 |
| 2016-17 | 88.93 | 84.81 | 1.179 |
| 2017-18 | 90.42 | 86.23 | 1.160 |
| 2018-19 | 92.03 | 87.77 | 1.139 |
| 2019-20 | 94.42 | 90.05 | 1.111 |
| 2020-21 | 100.48 | 95.82 | 1.044 |
| 2021-22 | 100.00 | 95.37 | 1.049 |

Mae'r tabl hwn yn dangos y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i gymhwyso costau hanesyddol o flwyddyn ariannol benodol at brisiau 2022-23. Fel enghraifft ddamcaniaethol, pe bai cost o £1,000 yn cael ei gymryd o 2016-17, byddai'r gost honno'n cael ei huwchraddio i £1,179 yn ôl prisiau 2022-23 (£1,000*1.179).

[2] Mae ffigurau'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn seiliedig ar ddata Llywodraeth y DU sydd i'w gweld yn y cyfeiriad gwe canlynol: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1118718/GDP_Deflators_Autumn_Statement_November_2022_update.xlsx

## Adran 3 – Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl

3.1 Mae manylion y dulliau gweithredu a'r rhagdybiaethau ar gyfer materion penodol sy'n seiliedig ar bynciau a/neu bob un o'r opsiynau polisi sydd yn yr asesiad i'w gweld isod. Rhoddir manylion costau penodol lle y ceir angen clir i roi gwybodaeth neu dystiolaeth ategol am y ffordd y cafodd ffigurau eu cyfrifo. Lle mae'r asesiad yn glir ynghylch sut y cafodd ffigurau eu cyfrifo ac yn dangos tystiolaeth o hynny, ni chaiff y wybodaeth hon ei hailadrodd yn y papur methodoleg hwn.

**Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Materion Penodol sy'n Seiliedig ar Bynciau**

3.2 Mae rhai dulliau gweithredu a rhagdybiaethau wedi cael eu llunio mewn perthynas ag amrywiol feysydd pynciol er mwyn pennu'r costau a nodir yn yr asesiad. Mae'r rhain fel a ganlyn:

***Graddio ceisiadau seilwaith i'w hasesu***

3.3 Cydnabyddir bod y ceisiadau seilwaith hynny a nodir at ddibenion yr asesiad yn amrywio o ran graddfa, maint a chymhlethdod, ac felly cânt eu harchwilio'n wahanol. Er enghraifft, penderfynid ar gynlluniau ynni solar llai a nodir drwy sylwadau ysgrifenedig, ond mae'n debygol mai drwy ymchwiliad y penderfynid ar gynlluniau cynhyrchu mwy cymhleth a mwy o faint, megis morlyn llanw. Byddai hyn yn arwain at gostau gwahanol am benderfynu ar y ceisiadau hynny, a rhaid i'r gwahaniaethau hyn mewn costau gael eu hystyried yn yr asesiad.

3.4 Er mwyn rhoi ystod ddangosol o gostau ar gyfer y ceisiadau seilwaith hynny a nodir, mae ceisiadau wedi cael eu rhannu'n dair lefel yn seiliedig ar eu cymhlethdod tebygol. Mae prosiectau megis cyfleusterau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a gafodd eu harchwilio drwy sylwadau ysgrifenedig, neu sy'n debygol o gael eu harchwilio felly, wedi cael eu categoreiddio fel rhai 'cymhlethdod isel'. Mae cyfleusterau mwy a gafodd eu harchwilio drwy wrandawiadau pwnc-benodol, neu sy'n debygol o gael eu harchwilio felly, wedi cael eu categoreiddio fel rhai 'cymhlethdod canolig'. Mae prosiectau ar raddfa fawr sydd ag amrywiaeth o faterion a gafodd eu harchwilio drwy ymchwiliad, neu sy'n debygol o gael eu harchwilio felly, wedi cael eu categoreiddio fel rhai 'cymhlethdod uchel'.

***Costau ACLlau am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar geisiadau seilwaith***

3.5 Mae'r costau i ACLlau yn sgil cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar geisiadau seilwaith wedi cael eu seilio ar y costau a gyflwynwyd gan 10 ACLl ar gyfer y cyfnod o fis Mai tan fis Tachwedd 2022 am gymryd rhan mewn ceisiadau DAC diweddar. Mae'r costau hyn i'w gweld isod:

| Tabl B – Costau ACLlau am Gymryd Rhan mewn Ceisiadau DAC | |
|---|---|
| ACLl | Amcangyfrif o'r gost i'r ACLl fesul cais |
| ACLl 1 | £20,200 (A) |
| ACLL 2 | £3,475 (B) |
| ACLL 3 | £2,725 (C) |
| ACLL 4 | £2,250 (D) |
| ACLL 5 | £1,250 (E) |
| ACLL 6 | £0 (F) |
| ACLL 7 | £0 (G) |
| ACLL 8 | Costau amcangyfrifedig yn sgil cymryd rhan mewn pedwar cais DAC:<br>• £6,763 (H);<br>• £1,250 (I);<br>• £0 (J);<br>• £2,823 (K). |
| ACLL 9 | £15,737.53 (L) |
| ACLL 10 | £0 (M) |
| **Cyfartaledd (a ddefnyddiwyd at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol)** | **(A + B + C + D + E + F + G + H + I + J + K + L +M) / 13 = £4,344 fesul cais.** |

3.6 Casglwyd y data uchod yn dilyn cais i ACLlau gan Lywodraeth Cymru lle y gofynnwyd i ACLlau gyflwyno costau am gymryd rhan mewn ceisiadau DAC diweddar, yn seiliedig ar eu costau yn sgil gwneud sylwadau, paratoi a chyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol a chymryd rhan mewn unrhyw broses archwilio (gwrandawiad neu ymchwiliad).

3.7 Cafwyd data gan ACLlau mewn perthynas â 13 o geisiadau a gasglwyd drwy'r broses gyfan o benderfynu ar gais DAC. Oherwydd natur y data sydd ganddynt mewn perthynas â chymryd rhan, yn y rhan fwyaf o achosion rhoddodd yr ACLlau ffigur ar gyfer cyfanswm y gost am gymryd rhan yn y cais DAC yn seiliedig ar gostau staff (h.y. cyflogau a'r amser a gronnwyd). Mae'r awdurdodau wedi cael eu gwneud yn anhysbys fel na ellir priodoli'r costau i geisiadau penodol, er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth sensitif ei rhyddhau.

3.8 Roedd y costau'n amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol fathau o geisiadau DAC ac felly mae ffigur cyfartalog o £4,344 fesul cais wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion yr asesiad. Mae costau'r ACLlau yn sgil paratoi Adroddiad o'r Effaith Leol ar gyfer pob cais wedi cael eu diystyru o'r cyfansymiau uchod a'u cyfrif ar wahân fel cost o £7,750 a gaiff ei had-dalu gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd rhai awdurdodau mai dim ond hanner yr ad-daliad am baratoi Adroddiad o'r Effaith Leol, sef £3,875, a gawsant gan Lywodraeth Cymru, am fod y dogfennau hynny wedi cael eu cyflwyno'n hwyr. Yn yr achosion hynny, hanner yr ad-daliad sydd wedi cael ei ddiystyru, yn hytrach na'r £7,750 yn llawn.

3.9 Mae costau rhai awdurdodau am gymryd rhan mewn ceisiadau DAC wedi cael eu nodi fel sero. Y rheswm dros hyn yw bod cyfanswm yr ad-daliad am baratoi Adroddiad o'r Effaith Leol yn ddigon i dalu'r costau y nododd yr ACLl ei fod wedi mynd iddynt wrth gymryd rhan yn y cais.

3.10 Dylid cydnabod ei bod yn bosibl nad yw'r ffigurau uchod a gyflwynwyd gan ACLlau yn cynnwys yr holl gostau yr aed iddynt wrth gymryd rhan mewn ceisiadau DAC am ei bod yn anodd rhoi ffigurau union gywir ar gyfer gwariant ar bethau fel gwaith gweinyddol. Hefyd, mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod datblygwyr wedi ad-dalu ffioedd i awdurdodau drwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio ond, ar gyfer ceisiadau DAC, nid oedd cytundebau o'r fath yn berthnasol. Felly, nid oes sail gyson ar gyfer cymhwyso'r costau manwl eraill hynny ac felly ystyrir mai'r ffigurau uchod yw'r amcangyfrifon gorau o gostau ACLlau am gymryd rhan i'w cymhwyso at ddibenion yr asesiad.

***Costau PCAC a Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith***

3.11 Yn seiliedig ar brofiad o weithio ar geisiadau DAC, cynhaliodd swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a PCAC ymarfer desg er mwyn darganfod yr ystod o gostau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau seilwaith sy'n amrywio o ran cymhlethdod. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar y tasgau a gyflawnwyd, amser staff a chyflogau staff yn sgil penderfynu ar geisiadau DAC ac maent wedi cyfrannu at lunio'r costau i Lywodraeth Cymru / PCAC a nodir yn yr asesiad. Mae dadansoddiad llawn o'r costau hyn i'w weld yn **Atodiad A**.

***Ymgyngoreion Statudol***

3.12 Daw'r costau i ymgyngoreion statudol o ddata a nodwyd yn Adroddiad Arup ar geisiadau seilwaith hyd at 2019. Ystyrir bod y data'n ddigon cadarn i gael eu defnyddio i lunio'r amcangyfrifon o gostau ymgyngoreion statudol o dan yr opsiynau amrywiol, gan nad ystyrir bod natur y ffordd y bydd ymgyngoreion statudol yn ymateb i geisiadau seilwaith wedi newid ers 2019 tan adeg cyhoeddi'r asesiad.

3.13 Mae niferoedd yr ymatebion gan ymgyngoreion statudol yn seiliedig ar yr ymatebion i geisiadau DAC a aseswyd yng nghanfyddiadau astudiaeth Arup, sef 1.6 fesul cais. Ystyrir bod y nifer hwn yn adlewyrchu nifer yr ymgyngoreion statudol sy'n debygol o ymateb i geisiadau seilwaith yn gyffredinol, gan gynnwys y rhai a all gael eu cyflwyno o dan gyfundrefnau gwahanol.

3.14 Ar gyfer nifer bach iawn o geisiadau seilwaith yn ystod y cyfnod a aseswyd, byddai Trwyddedau Morol yn ofynnol yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a CNC sy'n penderfynu ar y rhain o dan y cyfundrefnau presennol. Felly, mae'r costau i CNC yn sgil penderfynu ar drwyddedau morol o dan y cyfundrefnau presennol wedi cael eu cynnwys yn y papur hwn. Nid yw'r costau hynny wedi'u cynnwys o dan Opsiynau 2 a 3 oherwydd, o dan yr opsiynau hynny, nid CNC fyddai'n gyfrifol am benderfynu ar drwyddedau morol gan y byddent yn cael eu cynnwys yn y broses o gydsynio seilwaith. Fodd bynnag, byddai'n parhau i gymryd rhan yn y broses o roi trwyddedau morol o dan bob opsiwn.

3.15 Mae CNC wedi cyflwyno'r gost sy'n gysylltiedig â rhyngweithio â phrosesau cydsynio amrywiol mewn perthynas â thrwyddedau morol[3]. Mae'r gost hon wedi cael ei chydgrynhoi ar gyfer pedair cyfundrefn wahanol ar gyfer croestoriad o geisiadau seilwaith. Mae'r costau hyn wedi cael eu hystyried, ynghyd â'r gost sy'n gysylltiedig â rhyngweithio â Deddf Cynllunio 2008 neu Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, er enghraifft, gan eu bod yn debygol o fod yr un faint â'r gost sy'n gysylltiedig â'r broses o gydsynio seilwaith. Caiff y costau hyn eu hariannu drwy gymorth grant, ac mae'n debygol y byddant yr un faint ar gyfer Opsiynau 1-4 ac, felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[3] Cafodd costau CNC am gymryd rhan mewn prosesau rhoi trwyddedau morol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 10 Chwefror 2023.

***Rôl Llywodraeth Cymru mewn ceisiadau seilwaith***

3.16 Ar gyfer rhai cynlluniau seilwaith, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel y datblygwr ac felly hi yw'r ceisydd mewn ceisiadau am gydsyniad. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon wedi'u cynnwys yn adrannau ‘datblygwr’ yr asesiad.

3.17 Ar gyfer rhai cynlluniau seilwaith, ymgynghorir â Llywodraeth Cymru fel ymgynghorai statudol ac felly mae'n gyfrifol am roi ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon wedi'u cynnwys yn adrannau ‘rhanddeiliad’ yr asesiad.

**Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 1 – Gwneud dim. Penderfynu ar geisiadau seilwaith yn unol â'r trefniadau deddfwriaethol presennol**

***Opsiwn 1 – Egwyddorion Cyffredinol***

3.18 Yn ystod y cyfnod a aseswyd, gwnaed ceisiadau am brosiectau seilwaith a nodir yn Atodiad 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o dan y cyfundrefnau canlynol:

- Caniatâd cynllunio o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gan gynnwys y rhai y penderfynwyd arnynt drwy 'alw i mewn' neu apêl);
- Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008[4];
- Cydsyniad DAC o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989;
- Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964;
- Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992;
- Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

3.19 Yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ystod y cyfnod a aseswyd o fis Ebrill 2013 tan fis Ebrill 2022, gwelwyd bod 54 o geisiadau seilwaith wedi cael eu cyflwyno, sef cyfartaledd o (54 / 9) chwe chais y flwyddyn. Mae'r rhain wedi cael eu dadansoddi yn ôl y gyfundrefn a fyddai wedi cael ei defnyddio i benderfynu arnynt a'r lefel debygol o gymhlethdod. Mae dadansoddiad manwl i'w weld yn y tabl isod:

[4] Mae ceisiadau wedi cael eu cynnwys o dan y gyfundrefn hon oherwydd, o ganlyniad i newidiadau i drothwyon ar gyfer penderfynu, Gweinidogion Cymru fyddai'n penderfynu arnynt o dan gyfundrefn y DAC yn y dyfodol.

| **Tabl C – Ceisiadau seilwaith a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd o fis Ebrill 2013 tan fis Ebrill 2022, wedi'u cymhwyso'n ôl-weithredol er mwyn llywio'r costau ar gyfer Opsiwn 1 (Gwneud Dim)** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Nifer |
| Caniatâd cynllunio o dan a.57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990[5] | 6 |
| Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | 22 |
| Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16, a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | 10 |
| Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008[6] | 8 |
| Gorsafoedd cynhyrchu o dan a.36 o Ddeddf Trydan 1989[7] | 2 |
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964 | 5 |
| Gorchmynion o dan a.1 ac a.3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1 |
| **Cyfanswm** | **54** |

[5] O dan y trefniadau presennol, oherwydd diweddariadau i'r ddeddfwriaeth, penderfynid ar y ceisiadau hynny a gofnodwyd o dan y gyfundrefn hon fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o hyn ymlaen ac felly mae'r costau wedi cael eu cyfrifo ar y sail honno. Mae set ddata Arup yn cynnwys 11 o geisiadau a.57. Ceisiadau dyblyg o un cynllun penodol oedd dau ohonynt, ac felly maent wedi cael eu cyfuno. Roedd tri ohonynt yn rhy fach (llai na 10MW) ac felly ni chawsant eu cynnwys.

[6] Gweler y troednodyn blaenorol. Hefyd, penderfynid ar un o'r wyth Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fel cais o dan y Ddeddf Trydan yn unol â'r trefniadau presennol, felly caiff y cais hwn ei gostio felly yn hytrach na fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

[7] Penderfynid ar un o'r ddau gais o dan y Ddeddf Trydan fel DAC o dan y trefniadau presennol, ac felly mae wedi'i gostio felly at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

3.20 Nodir bod pwerau cydsynio pellach wedi cael eu datganoli i Weinidogion Cymru o 1 Ebrill 2019 ymlaen, o ganlyniad i gychwyn darpariaethau a nodir yn Neddf Cymru 2017. Mae hyn yn cynnwys datganoli pellach ar gyfer cydsynio gorsafoedd cynhyrchu hyd at 350MW (o 50MW) heb derfyn uchaf ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir, a chydsynio Gorchmynion Diwygio Harbyrau. Cyn i'r cymhwysedd hwn gael ei drosglwyddo, byddai rhai cydsyniadau'n cael eu rhoi o dan Ddeddf Cynllunio 2008 gan yr Ysgrifennydd Gwladol (h.y. gorsafoedd cynhyrchu rhwng 50MW a 350MW). Fodd bynnag, yn dilyn y datganoli hwn, nid yw ceisyddion prosiectau datganoledig yn gallu defnyddio'r broses o dan Ddeddf Cynllunio 2008 mwyach, a chaiff cydsyniad ar gyfer prosiectau cyfatebol ei roi naill ai o dan adrannau 57 neu 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ar y tir) neu adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. At hynny, mae'r cyfnod a aseswyd yn cynnwys ceisiadau wedi'u meintioli cyn i'r broses DAC ddod i rym ar 1 Mawrth 2016, sy'n cynnwys gorsafoedd cynhyrchu â chapasiti cynhyrchu rhwng 10MW a 50MW yn bennaf. Roedd ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Pe bai cais o'r fath yn cael ei wneud o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, byddent yn ddarostyngedig i'r broses DAC.

3.21 At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r papur methodoleg hwn, ac er mwyn adlewyrchu opsiwn ‘gwneud dim’ yn gywir, caiff ceisiadau eu cyfrif fel pe baent wedi cael eu cyflwyno o dan y gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol. Er enghraifft, Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a roddwyd o dan Ddeddf Cynllunio 2008 oedd Morlyn Llanw Bae Abertawe, gan fod y cais wedi cael ei wneud a'r cydsyniad wedi cael ei roi cyn 1 Ebrill 2019. Pe bai cais yn cael ei wneud am yr un datblygiad heddiw, penderfynid arno o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989, ac adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r tabl yn **Atodiad B** yn adlewyrchu pa ddatblygiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, pa gyfundrefn roeddent yn perthyn iddynt ar gyfer penderfynu arnynt, ac o dan ba gyfundrefn y penderfynid arnynt o dan y cyfundrefnau deddfwriaethol presennol.

| **Tabl D – Niferoedd a chymhlethdod graddedig ceisiadau seilwaith a ragwelir fesul blwyddyn o dan Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Prosiectau (yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd) | Prosiectau fesul blwyddyn |
| 6 cymhlethdod uchel – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | (6 / 9) = 0.7 |
| 10 cymhlethdod uchel – Deddf Priffyrdd 1980 | (10 / 9) = 1.1 |
| 1 cymhlethdod uchel – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | (1 / 9) = 0.1 |
| 2 cymhlethdod uchel – Deddf Trydan 1989 | (2 / 9) = 0.2 |
| **Cyfanswm o 19 o Brosiectau Cymhlethdod Uchel** | **(19 / 9) = 2.1** |
| 21 cymhlethdod canolig – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | (21 / 9) = 2.3 |
| 5 cymhlethdod canolig – Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau | (5 / 9) = 0.6 |
| **Cyfanswm o 26 o Brosiectau Cymhlethdod Canolig** | **(26 / 9) = 2.9** |
| 9 cymhlethdod isel – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | (9 / 9) = 1 |
| **Cyfanswm o 9 Prosiect Cymhlethdod Isel** | **(9 / 9) = 1** |
| **Cyfanswm o 54 o Brosiectau a Aseswyd** | **(54 / 9) = 6.0** |

***Opsiwn 1 – Costau Llywodraeth Cymru***

3.22 Mae dadansoddiad manwl o'r costau fesul blwyddyn i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl E – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i Lywodraeth Cymru am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | £0 (A.). |
| Caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Cyfanswm o 36 o geisiadau DAC yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Amcangyfrifir eu bod yn cynnwys y canlynol:<br>• 9 cymhlethdod isel = 9 / 9 = 1 y flwyddyn (B.).<br>• 21 cymhlethdod canolig = 21 / 9 = 2.3 y flwyddyn (C.).<br>• 6 cymhlethdod uchel = 6 / 9 = 0.7 y flwyddyn (D.).<br><br>Cost gyfartalog i PCAC / Llywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau DAC o wahanol lefelau cymhlethdod:<br>• Cymhlethdod isel = £32,154 (E.).<br>• Cymhlethdod canolig = £76,084 (F.).<br>• Cymhlethdod uchel = £208,146 (G.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (B. x E.) + (C. x F.) + (D. x G.) = £348,448 (H.). Ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr. |
| Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | 2 orsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y gorsafoedd cynhyrchu fesul blwyddyn = 2 / 9 = 0.2 (I.). |

| | |
|---|---|
| | Tybir y byddai gorsafoedd cynhyrchu yn cyfateb i benderfynu ar gais DAC cymhlethdod uchel am gost o £208,146 (J.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (I. x J.) = £46,255. (K.). Ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr. |
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 | 5 Gorchymyn Harbwr yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Harbwr fesul blwyddyn = 5 / 9 = 0.6 (L.).<br><br>Tybir y byddai Gorchmynion Harbwr yn cyfateb i benderfynu ar gais DAC cymhlethdod canolig am gost o £76,084 (M.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (L. x M.) = £42,269. (N.). Nid ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr. |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1 Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd fesul blwyddyn = 1 / 9 = 0.1 (O.).<br><br>Tybir y byddai Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn cyfateb i benderfynu ar gais DAC cymhlethdod uchel am gost o £208,146 (P.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (O. x P.) = £23,127. (Q.). Nid ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr. |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 | 10 Gorchymyn Priffyrdd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Nifer y ceisiadau Gorchymyn Priffyrdd a ragwelir fesul blwyddyn = 10 / 9 = 1.1 (R.).<br><br>Amcangyfrifir y bydd y costau penderfynu ar orchymyn priffyrdd yn cynnwys y tasgau canlynol: |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

- Cost i PCAC am baratoi Adroddiad yr Arolygydd, y tybir y bydd yn cyfateb i'r gost am wneud cais DAD cymhlethdod uchel = £208,146 (S.).
- Bwrw golwg dros yr adroddiad, briffio'r Gweinidog a chyhoeddi'r penderfyniad (yn seiliedig ar wybodaeth gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am benderfynu ar orchmynion o dan y Ddeddf Priffyrdd) = £24,036 (T.).

| | |
|---|---|
| Bwrw Golwg dros Adroddiad yr Arolygydd | £13,409 |
| Cyngor Gweinidogol a dogfennau cysylltiedig | £7,156 |
| Cliriadau | £2,283 |
| Cyhoeddi | £1,189 |
| CYFANSWM | £24,036 |

Cyfanswm y gost am benderfynu ar orchymyn priffyrdd = (S. + T.) = £232,182 (U.).

Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (R. x U.) = £257,980. (V). Ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr.
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i Lywodraeth Cymru am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1</td>
<td>(cyfanswm (A.), (H.), (K.), (N.), (Q.), (V.)) = £718,078 y flwyddyn.<br><br>(H.) + (K.) + (V.) = £652,682 a gaiff ei had-dalu.<br>(N.) + (Q.) = £65,396 na chaiff ei had-dalu.</td>
</tr>
</table>

3.23 Mae'r costau i Lywodraeth Cymru am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan yr opsiwn hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol, a adlewyrchir yn y golofn ar gyfer y cyfundrefnau presennol yn **Atodiad B**:

- Gwnaed chwe chais am ganiatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ystod y cyfnod a aseswyd gyda chapasiti cynhyrchu o fwy na 10MW. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, penderfynid ar y chwe chais o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel ceisiadau DAC. Felly, ni fyddent yn arwain at gostau apelio i Lywodraeth Cymru ac nid ystyrir bod angen cyfrifo cost apeliadau adran 57 o dan yr opsiwn hwn.

- Mae nifer y ceisiadau DAC am 'ddatblygiad seilwaith' yn ystod y cyfnod a aseswyd, sef 36[8], yn seiliedig ar 22 o geisiadau a gyflwynwyd i PCAC, neu a gaiff eu harchwilio gan PCAC, o dan y gyfundrefn benodol honno ac y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn eu cylch fel ceisiadau DAC o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Hefyd, mae'n cynnwys 14 o geisiadau a gyflwynwyd o dan gyfundrefnau deddfwriaethol eraill[9] y penderfynid arnynt fel ceisiadau DAC erbyn hyn.

- Nid yw'r cofnodion sydd gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn gwahaniaethu rhwng foltedd dynodedig llinell drydan uwchben ac a yw'r prosiect wedi'i ddatganoli. Felly, ni ellid dadansoddi'r cofnodion hyn mewn modd dibynadwy ac, o ganlyniad i hynny, ystyrir, at ddibenion yr astudiaeth hon, mai nifer y ceisiadau o dan adran 37 o Ddeddf Trydan 1989 a fyddai'n geisiadau DAC fel arall o dan y cyfundrefnau deddfwriaethol perthnasol yw sero.

- Ystyrir mai dim ond costau am geisiadau DAC, a cheisiadau am Orchmynion Priffyrdd a gorsafoedd cynhyrchu, fyddai'n cael eu had-dalu gan Weinidogion Cymru o dan yr opsiwn hwn. Ystyrir bod ffioedd ar gyfer Gorchmynion Harbwr a Thrafnidiaeth a Gweithfeydd yn rhy isel i Weinidogion Cymru allu adennill y costau am y mathau hynny o geisiadau gan ddatblygwyr.

***Opsiwn 1 – Costau Awdurdodau Cynllunio Lleol***

3.24 Mae dadansoddiad manwl o'r costau fesul blwyddyn i awdurdodau cynllunio lleol o dan yr opsiwn hwn am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol i'w weld yn y tabl isod:

---

[8] Ceisiadau o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Arup yn 2019, sef 'Research into the Cost of Infrastructure development in Wales, yn ogystal â cheisiadau ychwanegol a gyflwynwyd i PCAC yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror 2019 ac 1 Ebrill 2022.

[9] 7 Gorchymyn Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; 6 am ganiatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac 1am orsaf gynhyrchu o dan a.36 o Ddeddf Trydan 1989.

| **Tabl F – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i awdurdodau cynllunio lleol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | £0 (A.). |
| Caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Cyfanswm o 36 o geisiadau DAC yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Cyfanswm nifer fesul blwyddyn = 36 / 9 = 4 (B.).<br><br>Tybir y byddai'r gost i ACLlau yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Paratoi'r Adroddiad ar yr Effaith Leol = £7,750 (C.);<br>• Costau amcangyfrifedig eraill i ACLlau am gymryd rhan yn y broses DAC (fel y nodwyd mewn rhan arall o'r papur hwn) = £4,344 fesul cais (D.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (B. x C.) + (B. x D.) = £48,376 (E.).<br><br>Dim ond costau Adroddiad ar yr Effaith Leol a gaiff eu had-dalu, ac felly y costau na chânt eu had-dalu = (B. x D.) = £17,376 (F.). |
| Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | 2 orsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y gorsafoedd cynhyrchu fesul blwyddyn = 2 / 9 = 0.2 (G.).<br><br>Tybir y byddai'r costau i ACLlau am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar orsafoedd cynhyrchu yn debyg i'r costau am gymryd rhan mewn DAC, sef £4,344 fesul cais (H.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (G. x H.) = £965 (I.). |

| | |
|---|---|
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 | 5 Gorchymyn Harbwr yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Harbwr fesul blwyddyn = 5 / 9 = 0.6 (J.).<br><br>Tybir y byddai'r costau i ACLlau am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar Orchmynion Harbwr yn debyg i'r costau am gymryd rhan yn y broses DAC, sef £4,344 fesul cais (K.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (J. x K.) = £2,413 (L.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1 Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd fesul blwyddyn = 1 / 9 = 0.1 (M.).<br><br>Tybir y byddai'r costau i ACLlau am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar Orchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn debyg i'r costau am gymryd rhan yn y broses DAC, sef £4,344 fesul cais (N.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (M. x N.) = £483 (O.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 | 10 Gorchymyn Priffyrdd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Priffyrdd a ragwelir fesul blwyddyn = 10 / 9 = 1.1 (P.).<br><br>Tybir y byddai'r costau i ACLlau am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar Orchmynion Priffyrdd yn debyg i'r costau am gymryd rhan yn y broses DAC, sef £4,344 fesul cais (Q.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (P. x Q.) = £4,827 (R.). |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i awdurdodau cynllunio lleol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | (cyfanswm (A.), (E.), (I.), (L.), (O.), (R.)) = **£57,064 y flwyddyn** (S.)**.**<br><br>*O'r gost honno (B. x C.) =* ***£31,000 a gaiff ei had-dalu*** *(T.).*<br>***Yn weddill*** *(S. – T.)* ***= £26,064 na chaiff ei had-dalu.*** |

3.25 Mae'r costau i awdurdodau cynllunio lleol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan yr opsiwn hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Ar gyfer rhai cynlluniau seilwaith, mae ACLlau yn gweithredu fel y datblygwr ac felly nhw yw'r ceisydd mewn ceisiadau am gydsyniad. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon wedi'u cynnwys yn adrannau 'datblygwr' yr asesiad.
- Ar gyfer rhai cynlluniau seilwaith, ymgynghorir ag ACLlau fel ymgynghorai statudol ac felly maent yn gyfrifol am roi ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon wedi'u cynnwys yn adrannau 'rhanddeiliad' yr asesiad.
- Mae rhagdybiaethau tebyg ynglŷn â'r gyfundrefn gydsynio berthnasol o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol fel y nodir ym Mharagraff 3.22 uchod wedi cael eu gwneud.
- O ran Gorchmynion Harbwr, Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd a Gorchmynion Priffyrdd, nid oedd gwybodaeth fanwl ar gael am y costau i ACLlau yn sgil cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y mathau hyn o geisiadau. Felly, ystyrir ei bod yn briodol tybio y byddai eu costau am gymryd rhan yn cyfateb yn fras i'r costau yr eir iddynt am gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar fathau eraill o geisiadau o dan y llwybr DAC, sef cost o £4,344 fesul cais i ACLlau. Mae'r rhagdybiaeth hon wedi cael ei chymhwyso at y gwaith cyfrifo.

***Opsiwn 1 – Costau'r Diwydiant Datblygu***

3.26 Mae dadansoddiad manwl o'r costau fesul blwyddyn i'r diwydiant datblygu o dan yr opsiwn hwn am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl G – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i'r diwydiant datblygu am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | £0 (A.). |
| Caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Cyfanswm o 36 o geisiadau DAC yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Cyfanswm nifer fesul blwyddyn = 36 / 9 = 4 (B.). |

| | |
|---|---|
| | Costau datblygwyr, sef £897,230 (C.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (B. x C.) = £3,588,920 (D.). |
| Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | 2 orsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y gorsafoedd cynhyrchu fesul blwyddyn = 2 / 9 = 0.2 (E.).<br><br>Amcangyfrif Adroddiad Arup o'r costau cyfartalog i ddatblygwyr am geisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu fesul cais = £1,586,503 (F.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (E. x F.) = £352,556 (G.). |
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 | 5 Gorchymyn Harbwr yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Harbwr fesul blwyddyn = 5 / 9 = 0.6 (H.).<br><br>Amcangyfrif Adroddiad Arup o'r costau cyfartalog i ddatblygwyr am Orchmynion Harbwr fesul cais = £429,689 (I.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (H. x I.) = £238,716 (J.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1 Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd fesul blwyddyn = 1 / 9 = 0.1 (K.).<br><br>Amcangyfrif Adroddiad Arup o'r costau cyfartalog i ddatblygwyr am Orchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd fesul cais = £3,156,913 (L.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (K. x L.) = £350,768 (M.). |

| | |
|---|---|
| Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 | 10 Gorchymyn Priffyrdd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Priffyrdd a ragwelir fesul blwyddyn = 10 / 9 = 1.1 (N.).<br><br>Y costau amcangyfrifedig i ddatblygwr yn sgil cyflwyno cais am Orchymyn Priffyrdd (yn seiliedig ar gostau penderfynu Llywodraeth Cymru) = £232,182 (O.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (N. x O.) = £257,980 (P.). |
| **Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i'r diwydiant datblygu am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | **(cyfanswm (A.), (D.), (G.), (J.), (M.), (P.)) = £4,788,940 y flwyddyn.** |

3.27 Mae'r costau i'r diwydiant datblygu am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan yr opsiwn hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae rhagdybiaethau tebyg ynglŷn â'r gyfundrefn gydsynio berthnasol o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol fel y nodir ym Mharagraff 3.22 uchod wedi cael eu gwneud.
- Ar gyfer costau DAC datblygwyr, daw'r ffigur £897,230 o Adroddiad Arup, ar sail costau cyffredinol cyfartalog a chostau gweithdrefnol penodol fesul cais sy'n gysylltiedig â sicrhau cydsyniad. Mae Adroddiad Arup yn cadarnhau bod y ffigur hwn yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio.
- Caiff datblygwr ddewis cyflwyno ceisiadau am gysyniad eilaidd ochr yn ochr â chais DAC, a bydd nifer y cysyniadau eilaidd sy'n berthnasol i gais DAC yn amrywio. Nid oes tueddiadau ar hyn o bryd ac nid oes modd rhagweld unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydsyniad eilaidd yn gywir. Felly, nid yw'r costau hyn yn hysbys.
- Ni all datblygwyr apelio yn erbyn penderfyniadau PCAC ar geisiadau DAC. Felly, nid oes costau apelio i ddatblygwyr yn gysylltiedig â'r math hwn o gais.
- Ar gyfer y mathau eraill o gydsyniad sydd wedi'u rhestru, rhaid talu'r ffi briodol wrth wneud cais. Mae'r ffioedd hyn yn amrywiol ac ystyrir eu bod ond yn cynrychioli ffracsiwn bach o'r costau y bydd datblygwyr yn mynd iddynt wrth baratoi pob cais. At ddibenion cysondeb wrth gymhwyso data o Adroddiad Arup o dan Opsiwn 1 ar gyfer y gwahanol fathau o geisiadau seilwaith, ystyrir y byddai'r ffioedd ar gyfer cydsyniadau eraill yn cael eu hamsugno fel rhan o'r costau cyffredinol a restrir yn Adroddiad Arup (heb gynnwys Gorchmynion Priffyrdd, gweler isod).
- O ran defnyddio data o Adroddiad Arup ar gostau paratoi ar gyfer Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, er mai dim ond Gorchmynion yn Lloegr a welwyd fel rhan o ganfyddiadau astudiaeth Arup, ystyrir bod costau'r ceisiadau hynny'n cynrychioli llinell sylfaen addas ar gyfer mesur costau ceisiadau i ddatblygwyr am gyflwyno Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd yng Nghymru yn y

dyfodol. Y rheswm dros hyn yw y bydd y ceisiadau hyn yn debyg o ran natur ac felly disgwylir i ddatblygwyr cynlluniau yng Nghymru fynd i gostau tebyg am eu cyflwyno.

- O ran Gorchmynion Priffyrdd, mae Adroddiad Arup yn cynnwys costau Gorchmynion Priffyrdd ar gyfer tri chynllun priffyrdd arwyddocaol yn ystod y cyfnod 2013-2019, gyda chostau paratoi o £15,882,750 fesul cynllun ar gyfartaledd. Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidogion Cymru ar 14 Chwefror 2023 am yr Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth[10], ystyrir bod cynlluniau priffyrdd o'r natur a nodir yn Adroddiad Arup yn annhebygol o gynrychioli'r raddfa a'r math sy'n debygol o gael eu cyflwyno yng Nghymru yn y dyfodol. Felly, ystyrir nad yw'r costau i ddatblygwyr am baratoi Gorchmynion Priffyrdd sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Arup yn cynrychioli'r costau tebygol ar gyfer cynlluniau a fyddai'n cael eu cyflwyno o dan yr amrywiol opsiynau ac na ellir eu cymhwyso at ddibenion yr asesiad hwn. Fel y nodwyd eisoes, mae Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru wedi cael amcangyfrif o'r costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar Orchmynion Priffyrdd (£232,182 fesul cais ar gyfartaledd). Gellir adennill y costau hynny'n llawn gan ddatblygwyr ac felly gellir eu cymhwyso at ddibenion rhagweld costau datblygwyr ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd o dan y trefniadau cydsynio presennol yn Opsiwn 1. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth gymhwyso costau ar draws pob opsiwn, dim ond costau penderfynu sydd wedi cael eu cymhwyso at gostau datblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd o dan Opsiynau 2, 3 a 4 (gweler yr adrannau pellach isod). Wrth gymhwyso costau penderfynu yn unig, cydnabyddir y gall costau datblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn y dyfodol fod yn uwch na'r hyn a ddangosir ar draws pob opsiwn, ond mae hyn yn sicrhau y caiff data dibynadwy eu cymhwyso'n gyson ac felly mae'n cynnig ffordd addas o gymharu costau at ddibenion yr asesiad hwn.

[10] Datganiad Llafar: Yr Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, 14 Chwefror 2023: https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-yr-adolygiad-ffyrdd-ar-cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth

*Opsiwn 1 – Costau Ymgyngoreion Statudol*

3.28 Mae dadansoddiad manwl o'r costau fesul blwyddyn i ymgyngoreion statudol o dan yr opsiwn hwn am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl H – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i ymgyngoreion statudol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | £0 (A.). |
| Caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Nododd Adroddiad Arup 5 cais DAC gyda chyfanswm o 8 ymateb gan ymgyngoreion statudol. Felly, cyfartaledd o (8/5) = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (B.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £2,125 i £6,100 fesul cais DAC = cost ganolrifol o £4,113 fesul cais (C.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (B. x C.) = £6,580 (D.).<br><br>Gan dybio, ar gyfartaledd, y bydd (36/9) = 4 cais DAC y flwyddyn (E.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (D. x E.) = £26,320 (F.). |
| Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio, ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu, y byddai nifer tebyg o ymgyngoreion statudol yn rhoi ymatebion yn unol â'r ffigurau ar gyfer ceisiadau DAC = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (G.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £297 i £700 fesul cais am orsaf gynhyrchu = cost ganolrifol o £499 fesul cais (H.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (G. x H.) = £798 (I.). |

| | |
|---|---|
| | 2 gais am orsafoedd cynhyrchu yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Nifer y ceisiadau am orchmynion cynhyrchu a ragwelir fesul blwyddyn = 2 / 9 = 0.2 (J.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (I. x J.) = £177 (K.). |
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 | Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio, ar gyfer Gorchmynion Harbwr, y byddai nifer tebyg o ymgyngoreion statudol yn rhoi ymatebion yn unol â'r ffigurau ar gyfer ceisiadau DAC = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (L.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £700 i £25,438 fesul cais Gorchymyn Harbwr = cost ganolrifol o £13,069 fesul cais (M.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (L. x M.) = £20,910 (N.).<br><br>5 Gorchymyn Harbwr yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Nifer y Gorchmynion Harbwr a ragwelir fesul blwyddyn = 5 / 9 = 0.6 (O.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (N. x O.) = £11,617 (P.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio, ar gyfer Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd, y byddai nifer tebyg o ymgyngoreion statudol yn rhoi ymatebion yn unol â'r ffigurau ar gyfer ceisiadau DAC = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (Q.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £400 i £3,295 fesul cais Trafnidiaeth a Gweithfeydd = cost ganolrifol o £1,848 fesul cais (R.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (Q. x R.) = £2,956 (S.). |

| | |
|---|---|
| | 1 Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Nifer y Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd a ragwelir fesul blwyddyn = 1 / 9 = 0.1 (T.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (S. x T.) = £328 (U.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 | Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio, ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd, y byddai nifer tebyg o ymgyngoreion statudol yn rhoi ymatebion yn unol â'r ffigurau ar gyfer ceisiadau DAC = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (V.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol = £900 fesul cais (yn seiliedig ar yr unig ffigurau a oedd ar gael a ddarparwyd ar gyfer ymatebion Cadw) (W.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (V. x W.) = £1,440 (X.).<br><br>10 Gorchymyn Priffyrdd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Nifer y ceisiadau Gorchymyn Priffyrdd a ragwelir fesul blwyddyn = 10 / 9 = 1.1 (Y.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (X. x Y.) = £1,600 (Z.). |
| Trwyddedau Morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 | Mae'r swyddogaeth ar gyfer penderfynu ar drwyddedau morol wedi'i dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar hyn o bryd.<br><br>Y costau i CNC am benderfynu ar drwyddedau morol, ar gyfartaledd ar gyfer croestoriad o achosion seilwaith, yw £100,890 fesul cais. Caiff £90,620 o'r gost honno ei adennill drwy ffioedd. Mae hyn yn arwain at gost gyfartalog i CNC fesul cais = £10,270 (AA.)<br><br>O'r rhestr o ddatblygiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd, nodir bod angen trwydded forol ar gyfer pedwar, sef Morlyn Llanw Bae Abertawe, Morlais, Erebus a Marina Caergybi. Felly cyfanswm nifer y ceisiadau am drwydded forol a ragwelir fesul blwyddyn = 4 / 9 = 0.44 (AB.). |

| | |
|---|---|
| | Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (AA. x AB.) = £4,564 (AC.). |
| **Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i ymgyngoreion statudol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan Opsiwn 1** | **(cyfanswm (A.), (F.), (K.), (P.), (U.), (Z.), (AC.)) = £44,607 y flwyddyn.** |

3.29 Mae'r costau i ymgyngoreion statudol am barhau â'r cyfundrefnau cydsynio presennol o dan yr opsiwn hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae rhagdybiaethau tebyg ynglŷn â'r gyfundrefn gydsynio berthnasol o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol fel y nodir ym Mharagraff 3.22 uchod wedi cael eu gwneud.
- Ar gyfer Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau, Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 a Gorchmynion Priffyrdd, nid oedd data ar gael yn Adroddiad Arup er mwyn gweld niferoedd yr ymgyngoreion statudol sy'n ymateb i geisiadau o'r fath ar gyfartaledd. Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y byddai'r nifer hwn yn debyg i niferoedd yr ymgyngoreion statudol sy'n ymateb i geisiadau DAC, sef 1.6 fesul cais, gan eu bod yn fathau tebyg o geisiadau i DAC yn yr ystyr eu bod ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â seilwaith.
- Ar gyfer trwyddedau morol, dylid cydnabod bod y costau a roddwyd ar gyfer ymgyngoreion statudol yn gysylltiedig â chyfrifoldeb dirprwyedig CNC am benderfynu arnynt. Mae'r costau'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan CNC ar 10 Chwefror 2023 am y costau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar drwyddedau morol ar gyfer achosion seilwaith, gan gymryd y ceisiadau hynny a fyddai'n gymwys ar gyfer y cyfnod a aseswyd hyd at 1 Ebrill 2022.

**Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 2 – Sefydlu math newydd o 'Gydsyniad Seilwaith Cymreig' ar gyfer datblygiadau neu waith sydd â'r amcan o adeiladu a/neu newid defnydd i greu 'Prosiect Seilwaith Cymreig'. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir**

***Opsiwn 2 – Egwyddorion Cyffredinol***

3.30 O dan yr opsiwn hwn, fel yr amlinellir yn yr asesiad, un gyfundrefn gydsynio a fyddai'n cael ei defnyddio i benderfynu ar gynlluniau seilwaith. O gymharu ag Opsiwn 1, lle y penderfynir ar brosiectau o dan nifer o wahanol gyfundrefnau, byddai'r opsiwn hwn yn cynnig proses wedi'i symleiddio.

3.31 Yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd o fis Ebrill 2013 tan fis Ebrill 2022, byddai 44 o geisiadau seilwaith yn rhan o gyfundrefn cydsyniad seilwaith newydd o dan yr opsiwn hwn. Mae nifer y ceisiadau seilwaith o dan gyfundrefn newydd, sef 44, yn is na'r nifer a nodwyd ar gyfer Opsiwn 1, sef 54, oherwydd y rhagdybiaethau canlynol:

- byddai'r pum cais am orchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn cael eu cyfuno'n un cais am gydsyniad seilwaith;
- byddai'r tri chais sy'n gysylltiedig â Morlyn Llanw Bae Abertawe (un cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu a dau gais am Orchymyn Diwygio Harbwr) yn cael eu cyfuno'n un cais am gydsyniad seilwaith;
- byddai'r ceisiadau DAC ar gyfer gorsaf ynni nwy oriau brig Sudbrook; cyfleuster cydgynhyrchu Valero; safle cynhyrchu ynni cronfa wrth gefn weithredol Coed Darcy; gorsaf cynhyrchu ynni wrth gefn Heol Felindre; yn perthyn i'r categori Cydsyniad Seilwaith 'dewisol'. O ystyried graddfa ac effeithiau'r cynigion hyn, mae'n debygol y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn hytrach nag ar ffurf cais am Gydsyniad Seilwaith. Ystyriwyd bod ceisiadau eraill sy'n perthyn i'r categori dewisol ar raddfa ddigonol fel y bydd datblygwyr yn debygol o arfer yr opsiwn i wneud cais am Gydsyniad Seilwaith.

3.32 Byddai 44 o geisiadau yn golygu (44 / 9) 4.9 cais y flwyddyn a fyddai'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd. Felly, mae'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn, wedi'u cymhwyso'n ôl-weithredol, yn seiliedig ar 4.9 cais seilwaith y flwyddyn yn cael eu cyflwyno o dan y gyfundrefn cydsyniad seilwaith o hyn ymlaen, wedi'u dadansoddi yn ôl y lefel debygol o gymhlethdod. Mae dadansoddiad manwl i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl I – Niferoedd a chymhlethdod graddedig ceisiadau seilwaith a ragwelir fesul blwyddyn ar gyfer Opsiwn 2 o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd** | |
|---|---|
| Prosiectau (yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd) | Prosiectau fesul blwyddyn |
| 15 cymhlethdod uchel | (15 / 9) = 1.7 |
| 24 cymhlethdod canolig | (24 / 9) = 2.7 |
| 5 cymhlethdod isel | (5 / 9) = 0.6 |
| **Cyfanswm o 44 o brosiectau o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd** | **(44 / 9) = 4.9** |

3.33 Hefyd, nodir y byddai'r pedwar cais yn ystod y cyfnod a aseswyd y cyfeirir atynt uchod (Sudbrook ac ati), y penderfynir arnynt o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am eu bod yn rhy fach i gael eu hystyried yn geisiadau Cydsyniad Seilwaith, yn golygu y byddai ACLlau yn penderfynu ar y ceisiadau hynny fel ceisiadau ychwanegol. Wedi'i gymhwyso'n ôl-weithredol, byddai hyn yn golygu y byddai ACLlau, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, yn penderfynu ar (4 / 9) 0.4 o geisiadau seilwaith o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd.

***Opsiwn 2 – Costau Llywodraeth Cymru am reoli cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd***

3.34 Amcangyfrifir mai'r costau cyffredinol i Lywodraeth Cymru am reoli cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai (A. + B. + C.) **£385,308** ar gyfer costau sefydlu, gyda chostau parhaus o **£567,664** y flwyddyn am brosesu ceisiadau a phenderfynu arnynt. Mae tasgau amrywiol yn gysylltiedig â sefydlu cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd, fel a ganlyn:

- Sefydlu systemau rheoli achosion a TG newydd = £330,000 (A.).
- Hyfforddi a lledaenu gwybodaeth = £43,005 (B.).
- Canllawiau = £12,303 (C.).

3.35 Rhoddir esboniad manwl o'r costau sy'n gysylltiedig â phob un o'r uchod yn yr adrannau sy'n dilyn.

*Opsiwn 2 – Costau Llywodraeth Cymru – Sefydlu systemau rheoli achosion a TG newydd*

3.36 Tybir y bydd y gost o sefydlu systemau rheoli achosion a TG newydd o dan Opsiwn 2 yn debyg i'r costau a oedd yn gysylltiedig â throsglwyddo Arolygiaeth Gynllunio Cymru gynt (gan gynnwys ymgorffori ei staff a'i system rheoli achosion) i Lywodraeth Cymru ar ffurf PCAC. Gwneir y rhagdybiaeth hon oherwydd, unwaith eto, PCAC a fyddai'n gyfrifol am y systemau newydd o dan Opsiwn 2 ac am brosesu ceisiadau. Felly, drwy wneud y rhagdybiaeth hon, ystyrir y byddai'r costau'n debyg i'r gwariant ar ymgorffori gwaith PCAC o fewn Llywodraeth Cymru dros gyfnod o tua dwy flynedd hyd at 2022/2023, sef **£330,000**.

*Opsiwn 2 – Costau Llywodraeth Cymru – Hyfforddi a lledaenu gwybodaeth ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.37 Amcangyfrifir mai'r gost i Lywodraeth Cymru am gynnal digwyddiadau hyfforddi a lledaenu gwybodaeth ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai (A. + B. fel isod) **£43,005**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn yn ôl tasg a graddfa staff Llywodraeth Cymru isod:

| **Tabl J – Digwyddiadau Hyfforddi a Lledaenu Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd – Costau i swyddogion cynllunio ar gyfer hyfforddi a lledaenu gwybodaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| Tasg | Cost Gradd 7 | Cost Uwch-swyddog Gweithredol | Cost Swyddog Gweithredol Uwch |
| 12 o Ddigwyddiadau Lledaenu Gwybodaeth | £1,918 | £1,468 | £1,167 |
| Hyfforddiant gydag Arolygwyr PCAC a staff ehangach | £1,183 | £905 | £0 |
| Paratoi deunyddiau cyflwyno | £197 | £151 | £0 |
| **Cyfanswm costau** | **£6,988** (A.) | | |

| **Tabl K – Digwyddiadau Hyfforddi a Lledaenu Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd – Costau i swyddogion PCAC fod yn bresennol mewn hyfforddiant** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Cost Arolygydd sy'n Ddirprwy Gyfarwyddwr (x1 yn bresennol) | Costau Arolygydd Gradd 6 (x3 yn bresennol) | Costau Arolygydd Gradd 7 (x19 yn bresennol) | Costau Uwch-swyddogion Gweithredol (x2 yn bresennol) | Costau Swyddogion Gweithredol Uwch (x3 yn bresennol) | Costau Cymorth Tîm (x2 yn bresennol) |
| 3 digwyddiad hyfforddi diwrnod llawn | £1,639 | £4,815 | £24,669 | £1,810 | £2,159 | £925 |
| **Cyfanswm costau lledaenu gwybodaeth / ymgyfarwyddo** | | | | | | **£36,017** (B.) |

3.38 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y cyfansoddiad canlynol o ran tasgau a rhagdybiaethau:

- 10 digwyddiad lledaenu gwybodaeth ar gyfer ACLlau, yn para tua 3 awr yr un;
- 2 ddigwyddiad lledaenu gwybodaeth ar gyfer y diwydiant datblygu, yn para tua 3 awr yr un;
- Hyfforddiant tri diwrnod llawn ar gyfer Arolygwyr PCAC a staff ehangach;
- Dim costau llogi lleoliad gan mai swyddogion Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru fydd yn cynnal yr hyfforddiant mewn ystafelloedd cyfarfod sydd gan y Llywodraeth eisoes, neu ar-lein;
- Hanner diwrnod ar gyfer paratoi deunyddiau;
- Un swyddog cynllunio Gradd 7 ac un swyddog cynllunio ar lefel uwch-swyddog gweithredol o Lywodraeth Cymru yn cynnal y digwyddiadau lledaenu gwybodaeth, gyda chymorth ychwanegol gan un swyddog cynllunio ar lefel swyddog gweithredol uwch;
- Holl staff PCAC a fyddai'n rhan o gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd yn bresennol yn yr hyfforddiant tri diwrnod (gwybodaeth gan PCAC ar 9 Mawrth 2023);

- Mae'r costau staff yn seiliedig ar gostau cyflogau gros blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 wedi'u rhannu yn ôl cyfradd ddyddiol a chyfradd yr awr, ar 220 diwrnod gwaith y flwyddyn (260 diwrnod gwaith llai 40 diwrnod ar gyfer gwyliau blynyddol a lwfans ar gyfer gwyliau cyhoeddus) a 7.4 awr y dydd.

3.39 Y sail resymegol dros y digwyddiadau hyfforddi a lledaenu gwybodaeth o dan yr opsiwn hwn yw dilyn fformat tebyg i'r hyn a ddigwyddodd pan gafodd y gyfundrefn DAC ei chyflwyno. Credid bod y fformat hwn wedi gweithio'n llwyddiannus ar y pryd, a rhoddwyd adborth cadarnhaol iddo. Ystyrir y bydd dilyn fformat tebyg ar gyfer cyfundrefn newydd a fydd, unwaith eto, ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith yn yr un modd â DAC, yn rhesymegol ac yn briodol yn yr achos hwn.

*Opsiwn 2 – Costau Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.40 Amcangyfrifir mai'r gost i Lywodraeth Cymru am lunio canllawiau pwrpasol ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£12,303**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn yn ôl tasg a graddfa staff Llywodraeth Cymru isod:

| **Tabl L – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd** | | |
|---|---|---|
| Tasg | Cost Uwch-swyddog Gweithredol | Cost Swyddog Gweithredol Uwch |
| Gwaith cychwynnol i baratoi canllawiau (45 diwrnod) | £0 | £10,795 |
| Cymeradwyo'r canllawiau terfynol (5 diwrnod) | £1,508 | £0 |
| **Cyfanswm costau** | **£12,303** | |

3.41 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y cyfansoddiad canlynol o ran tasgau a rhagdybiaethau:

- Bydd 15 o ddogfennau canllaw newydd ar gyfer proses Cydsyniad Seilwaith newydd, sef ffigur sy'n seiliedig ar yr amrywiaeth o feysydd pwnc a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth ar gyfer cyfundrefn newydd;
- Un swyddog cynllunio ar lefel uwch-swyddog gweithredol ac un swyddog cynllunio ar lefel swyddog gweithredol uwch o Lywodraeth Cymru yn llunio'r canllawiau. Yr uwch-swyddog gweithredol a fydd yn gyfrifol am eu paratoi, gyda phob dogfen ganllaw'n cymryd tri diwrnod gwaith i'w pharatoi, a'r swyddog gweithredol uwch yn cymeradwyo'r cynnwys, gyda thair dogfen ganllaw'n cael eu cymeradwyo mewn diwrnod gwaith;
- Mae'r costau staff yn seiliedig ar gostau cyflogau gros blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 wedi'u rhannu yn ôl cyfradd ddyddiol, ar 220 diwrnod gwaith y flwyddyn.

3.42 Byddai'r gost hon ar gyfer canllawiau pwrpasol hefyd yn gymwys i gorff annibynnol am benderfynu ar geisiadau Cydsyniad Seilwaith o dan Opsiwn 3 isod.

*Opsiwn 2 – Costau Llywodraeth Cymru – Prosesu ceisiadau o dan gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd a phenderfynu arnynt*

3.43 Caiff ceisiadau ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd eu prosesu gan PCAC ar ran Gweinidogion Cymru, a Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu arnynt yn derfynol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at gostau i Lywodraeth Cymru o **£567,664 y flwyddyn, ac y byddai'r costau hynny'n cael eu had-dalu yn eu cyfanrwydd**. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hynny i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl M – Costau Llywodraeth Cymru – Prosesu ceisiadau o dan gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith a phenderfynu arnynt** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd | Yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd y penderfynid ar 44 o geisiadau o dan broses Cydsyniad Seilwaith newydd yn y dyfodol. O'r rhain, amcangyfrifir y byddai'r 44 o geisiadau yn cynnwys y canlynol:<br><br>• 5 cymhlethdod isel = 5 / 9 = 0.6 y flwyddyn (A.). |

| | |
|---|---|
| | • 24 cymhlethdod canolig = 24 / 9 = 2.7 y flwyddyn (B.).<br>• 15 cymhlethdod uchel = 15 / 9 = 1.7 y flwyddyn (C.).<br><br>Cost gyfartalog i PCAC / Llywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau DAC o wahanol lefelau cymhlethdod, a ddefnyddir yn yr achos hwn i ddangos costau ar gyfer ceisiadau Cydsyniad Seilwaith:<br><br>• Cymhlethdod isel = £32,154 (D.).<br>• Cymhlethdod canolig = £76,084 (E.).<br>• Cymhlethdod uchel = £208,146 (F.). |
| **Cyfanswm costau** | Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (A. x D.) + (B. x E.) + (C. x F.) = **£567,664** (G.). **Ystyrir y caiff y gost hon ei had-dalu gan ddatblygwyr.** |

3.44 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai'r costau i Lywodraeth Cymru am brosesu ceisiadau o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd a phenderfynu arnynt yn cyd-fynd yn fras â'r costau presennol am benderfynu ar geisiadau DAC. Y rheswm dros hyn yw yr ystyrir y byddai tasgau tebyg yn gysylltiedig â'r ddwy gyfundrefn, gan y bydd ganddynt, neu gan y byddai ganddynt, gyfrifoldebau tebyg am benderfynu ar brosiectau seilwaith ar raddfa fawr yng Nghymru.

***Opsiwn 2 – Costau ACLlau – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd***

3.45 Amcangyfrifir mai'r costau cyffredinol i ACLlau am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£30,266** ar gyfer costau sefydlu, gyda chostau parhaus o **£60,148 y flwyddyn, ac na fyddai £21,237 o'r costau hynny'n cael ei ad-dalu.**

*Opsiwn 2 – Costau ACLlau – Costau sefydlu am fod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.46 Amcangyfrifir mai'r costau sefydlu i ACLlau am fod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£30,266**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn yn ôl y swyddogion ACLl y rhagwelir y byddent yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath isod:

| **Tabl N – Costau ACLlau – Bod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Prif Gynllunydd (x1 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £51.56) | Arweinydd Rheoli Datblygu (x1 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £39.24) | Prif Swyddog Cynllunio / Arweinydd Tîm (x2 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £30.29) | Uwch-swyddog Cynllunio (x2 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £28.69) | Swyddog Cynllunio (x4 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £25) | Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio (x1 yn bresennol ar gyfradd yr awr o £26.69) |
| Tair awr o hyfforddiant fesul swyddog | £155 | £118 | £182 | £172 | £300 | £80 |
| Cyfanswm ar gyfer 25 o ACLlau | £3,867 | £2,943 | £4,544 | £4,304 | £7,500 | £2,002 |
| Cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 er mwyn trosi costau 2015/16 yn brisiau cyfredol | £4,652 | £3,540 | £5,466 | £5,177 | £9,023 | £2,408 |
| **Cyfanswm costau lledaenu gwybodaeth / ymgyfarwyddo** | | | | | | **£30,266** |

3.47 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Byddai swyddogion ACLlau yn mynd i ddigwyddiadau am gyfanswm o dair awr yr un;

- Dadansoddiad o'r swyddogion sy'n debygol o fynd i ddigwyddiadau yn seiliedig ar gynrychiolaeth ar draws amrywiaeth o raddfeydd cynllunio ACLlau, yn ogystal â lwfans ar gyfer un cynghorydd o bob awdurdod sydd â diddordeb mewn materion cynllunio. Cydnabyddir y bydd cyfansoddiad y staff mewn ACLlau unigol yn amrywio, ond ystyrir bod y cyfansoddiad staff a nodir yn cynrychioli uchafswm nifer y swyddogion a all fod yn bresennol o unrhyw ACLl penodol;
- Mae cyfraddau fesul awr ACLlau yn seiliedig ar wybodaeth ym Mhapur Methodoleg Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cynllunio (Cymru) (dyddiedig Ebrill 2015)[11]. Gan mai costau hanesyddol yw'r rhain, mae ffigur chwyddiant o 1.203 wedi cael ei gymhwyso er mwyn trosi costau 2015/16 yn brisiau cyfredol.

*Opsiwn 2 – Costau ACLlau – Cymryd rhan yn barhaus mewn ceisiadau seilwaith o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.48 Amcangyfrifir mai'r gost i ACLlau am gymryd rhan mewn ceisiadau seilwaith o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£60,148 y flwyddyn, na fyddai £21,237 o'r costau hynny yn cael ei ad-dalu**. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hynny i'w weld yn y tabl isod:

| **Tabl O – Costau ACLlau Fesul Blwyddyn – Cymryd rhan mewn Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd** | |
|---|---|
| Tasg | Cost |
| Paratoi Adroddiad ar yr Effaith Leol ar gyfer y Gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith | Ffi o £7,750 x (44 / 9) 4.9 cais y flwyddyn = £37,889 (A.).<br><br>*A gaiff ei had-dalu gan Lywodraeth Cymru* |
| Cyfranogiad cyffredinol ACLlau yn y Gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith | Yn seiliedig ar wybodaeth y mae ACLlau wedi'i rhoi am gymryd rhan mewn ceisiadau DAC ar gyfradd o £4,344 x (44 / 9) 4.9 cais y flwyddyn = £21,237 (B.).<br><br>*Na chaiff ei had-dalu* |
| ACLlau yn penderfynu ar geisiadau seilwaith nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith | £2,300 x (4/9) 0.4 cais y flwyddyn = £1,022 (C.).<br><br>*A gaiff ei had-dalu drwy ffioedd* |

[11] Mae Papur Methodoleg Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cynllunio (Cymru) 2015 i'w weld yma: https://www.llyw.cymru/bil-cynllunio-cymru-papur-methodoleg-yr-asesiad-or-effaith-rheoleiddiol

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Costau ACLlau Fesul Blwyddyn – Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd (Opsiwn 2)** | (A.) + (B.) + (C.) = **£60,148**<br>*(A.) + (C.)* ***= £38,911 a gaiff ei had-dalu.***<br>*(B.)* = ***£21,237 na chaiff ei had-dalu.*** |

3.49 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae'r costau am baratoi Adroddiad o'r Effaith Leol yn seiliedig ar y costau presennol i bob ACLl perthnasol ar gyfer ceisiadau DAC;
- Mae cyfranogiad cyffredinol ACLlau yn y gyfundrefn yn seiliedig ar ffigurau a gafwyd gan ACLlau ar gyfer cymryd rhan mewn ceisiadau DAC (fel y trafodwyd mewn rhan arall o'r papur hwn);
- Mae'r gost i ACLlau am benderfynu ar geisiadau seilwaith na fyddent yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar y ffioedd y mae'n ofynnol i ACLlau eu talu am geisiadau tebyg, fel y'u cymerwyd o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 (OS 2015/1522), Atodlen 1, Rhan 2: Graddfa Ffioedd. Yn seiliedig y ceisiadau hynny a welwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, wedi'u cymhwyso'n ôl-weithredol, disgwylir y byddai ceisiadau tebyg y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt yn y dyfodol yn perthyn i gategori 5 o'r Atodlen Ffioedd: Codi, addasu neu amnewid peiriannau neu beirianwaith, lle y byddai ffioedd o £460 fesul 0.1 hectar o arwynebedd y safle yn gymwys. Ystyrir bod y ceisiadau a welwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd at y diben hwn yn rhai cymhlethdod isel a'u bod tua 0.5 hectar o faint ar gyfartaledd, sy'n arwain at gost fesul cais o (£460 x 5) £2,300;
- Mae niferoedd y ceisiadau fesul blwyddyn yn seiliedig ar y rhai a welwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, wedi'u cymhwyso'n ôl-weithredol (fel y nodwyd uchod).

***Opsiwn 2 – Costau datblygwyr – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd***

3.50 Amcangyfrifir mai'r costau cyffredinol i ddatblygwyr am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£3,030** ar gyfer costau sefydlu, gyda chostau parhaus o **£4,208,404** y flwyddyn.

*Opsiwn 2 – Costau datblygwyr – Costau sefydlu am fod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.51 Amcangyfrifir mai'r costau sefydlu i'r diwydiant datblygu am fod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£3,030**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn isod:

| Tabl P – Costau Datblygwyr – Bod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd | | | |
|---|---|---|---|
| Tasg | Amser hyfforddi (oriau) | Cyfradd yr awr | Niferoedd sy'n bresennol |
| Tair awr o hyfforddiant fesul swyddog | 3 | | |
| Cost yr awr yn seiliedig ar y wybodaeth ar gyfer gweithgareddau pensaernïol a pheirianyddol a gwaith ymgynghori technegol cysylltiedig yn nata ASHE o 2022 | | £25.25 | |
| Tybir y bydd 20 o gyrff gwahanol yn bresennol yn y digwyddiadau hynny (gyda dau berson o bob corff yn bresennol) | | | 40 |
| **Cyfanswm costau lledaenu gwybodaeth / ymgyfarwyddo** | | | **£3,030.00** |

3.52 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Byddai swyddogion o'r diwydiant datblygu yn mynd i ddigwyddiadau am gyfanswm o dair awr yr un;
- Mae niferoedd y swyddogion sy'n debygol o fod yn bresennol yn seiliedig ar waith ymgysylltu a wnaed gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru â thua 20 o grwpiau/cyrff sydd â diddordeb yn y cynigion hyd at fis Mawrth 2023. Ystyrir y byddai hyd at ddau unigolyn o bob un yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath;
- Mae cyfraddau yr awr datblygwyr yn seiliedig ar ddata o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2022, gan gymhwyso disgyblaeth briodol ar gyfer y math o sefydliadau a fyddai'n bresennol, yn ogystal â 30% o argostau.

*Opsiwn 2 – Costau datblygwyr – Cymryd rhan mewn ceisiadau seilwaith yn barhaus o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.53 Amcangyfrifir mai'r gost i'r diwydiant datblygu am gymryd rhan mewn ceisiadau seilwaith o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£4,208,404 y flwyddyn**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn isod:

| **Tabl Q – Costau Datblygwyr Fesul Blwyddyn – Cymryd rhan mewn Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd** | |
|---|---|
| Tasg | Cost |
| Costau datblygwyr ar gyfer ceisiadau y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd (heb gynnwys cynlluniau priffyrdd):<br><br>• Paratoi'r cais – £670,000;<br>• Unrhyw ymgynghori statudol cyn gwneud cais – £23,333;<br>• Unrhyw ymgynghori anstatudol cyn gwneud cais (h.y. cynnal digwyddiadau, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ac ati y tu hwnt i'r gofynion statudol) – £22,500;<br>• Cymryd rhan mewn archwiliad – £116,667;<br>• Gwneud diwygiad sylweddol i brosiect wrth i gais gael ei archwilio, lle bo hynny'n berthnasol – £29,667;<br>• Gwneud diwygiad ansylweddol neu fân ddiwygiad i brosiect wrth i gais gael ei archwilio, lle bo hynny'n berthnasol – £6,250;<br>• Creu a chynnal gwefan sy'n arddangos cais cyfan, am gyfnod o chwe mis – £17,500;<br>• Cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol neu gyfnodolyn perthnasol yn hysbysebu cais arfaethedig am ddatblygiad, am gyfnod o wythnos – £11,313.<br><br>Mae'r costau hyn i ddatblygwyr yn berthnasol i bob cais a fyddai'n cael eu cyflwyno o dan gyfundrefn newydd, sef cyfanswm o 44, fel y nodwyd yn flaenorol, llai chwe chais a fyddai'n cael eu cyflwyno fel cynlluniau priffyrdd (gweler y rhes isod). Felly, maent yn berthnasol i gyfanswm o 38 o geisiadau yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. | Cyfanswm o £897,230 x (38 / 9) 4.2 cais y flwyddyn = £3,788,304. |
| Costau datblygwyr ar gyfer ceisiadau priffyrdd y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd (cyfanswm o 6 yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd). | Cyfanswm o £265,610 x (6/9) 0.7 cais y flwyddyn = £177,073. |

| | |
|---|---|
| • Cyfanswm costau ceisiadau, heb gynnwys costau paratoi – £227,230 (gweler y rhes uchod am ddadansoddiad manwl).<br><br>Yn ogystal â'r ffioedd DAC canlynol:<br><br>• Ffi hysbysu o £580;<br>• Ffi gychwynnol o £15,350;<br>• Ffi Adroddiad o'r Effaith Leol o £7,750;<br>• Ffi benderfynu o £14,700. | |
| Costau datblygwyr ar gyfer ceisiadau seilwaith y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt heb fod o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd (gweler y tabl pellach isod) | Cyfanswm o £546,808 x (4/9) 0.4 cais y flwyddyn = £243,026. |
| **Cyfanswm Costau Datblygwyr Fesul Blwyddyn – Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd (Opsiwn 2)** | **£4,208,404** |

3.54 Mae'r costau datblygwyr fesul cais seilwaith y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd yn seiliedig ar y cyfrifiadau canlynol:

| **Tabl R – Dadansoddiad o gostau datblygwyr fesul cais seilwaith y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt, yn hytrach na'u bod o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd** | |
|---|---|
| Tasg | Cost |
| Paratoi'r cais | £670,000 |
| Llai'r ffioedd DAC canlynol o'r cyfanswm:<br><br>• Ffi hysbysu o £580;<br>• Ffi gychwynnol o £15,350;<br>• Ffi Adroddiad o'r Effaith Leol o £7,750;<br>• Ffi benderfynu o £14,700.<br><br>(£580 + £15,350 + £7,750 + £14,700) = £38,380 i gael ei dynnu. | – £38,380 |

| | |
|---|---|
| Llai Ffi Archwilio DAC<br><br>Mae'r ffioedd archwilio wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar Arolygwyr PCAC yn penderfynu ar geisiadau DAC o wahanol lefelau cymhlethdod, wedi'u hamcangyfrif fel a ganlyn:<br><br>• DAC cymhlethdod isel – £32,154;<br>• DAC cymhlethdod canolig – £76,084;<br>• DAC cymhlethdod uchel – £208,146.<br><br>Yn ystod y cyfnod a aseswyd, gwnaed 4 cais DAC y flwyddyn, ac o'u plith roedd 0.7 o gymhlethdod uchel, 2.3 o gymhlethdod canolig ac 1 o gymhlethdod isel (gweler y ffigurau o dan Opsiwn 1 ar gyfer yr opsiwn gwneud dim).<br><br>Felly, amcangyfrifir mai'r costau archwilio fesul blwyddyn ar gyfer:<br><br>• 1 DAC cymhlethdod isel fyddai (1 x £32,154) = £32,154;<br>• 2.3 DAC cymhlethdod canolig fyddai (2.3 x £76,084) = £177,530;<br>• 0.7 DAC cymhlethdod uchel fyddai (0.7 x £208,146) = £138,764.<br><br>Cyfanswm y costau amcangyfrifedig ar gyfer y 4 cais DAC y flwyddyn gyda'i gilydd fyddai (£32,154 + £177,530 + £138,764) = £348,448.<br><br>Felly, cost gyfartalog archwilio 1 DAC fyddai (£394,703 / 4) = £87,112 i gael ei dynnu. | – £87,112 |
| Ychwanegu'r ffi sy'n daladwy gan ddatblygwyr i ACLlau er mwyn i ACLlau benderfynu ar geisiadau seilwaith, sef £2,300 y cais, fel y nodwyd yn yr adran ar gostau ACLlau uchod. | + £2,300 |
| **Costau datblygwyr fesul cais seilwaith y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt** | **£546,808** |

3.55 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae'r costau datblygwyr yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad Arup yn bennaf, gan ddefnyddio data DAC fel costau cymharol ar gyfer y ceisiadau seilwaith hynny a gaiff eu cyflwyno o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd;
- Mae niferoedd y ceisiadau fesul blwyddyn yn seiliedig ar y rhai a welwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, wedi'u cymhwyso'n ôl-weithredol (fel y nodwyd uchod);
- Ar gyfer costau datblygwyr mewn perthynas â chynlluniau priffyrdd o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd, nid yw'r gost o baratoi cais, sef £670,000, wedi'i chynnwys a dim ond y costau penderfynu sydd wedi'u cymhwyso, er mwyn bod yn gyson ag Opsiwn 1. I gael esboniad llawn o'r dull gweithredu, gweler Paragraff 3.27 o'r papur hwn. Caiff ffioedd ar gyfer DAC eu hychwanegu am fod Adroddiad Arup yn cadarnhau bod y gost o £670,000 na chaiff ei chymhwyso ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio DAC;
- Ar gyfer costau datblygwyr lle y caiff rhai ceisiadau eu cyflwyno i ACLlau o dan unrhyw broses newydd, mae costau DAC o Adroddiad Arup wedi cael eu cymhwyso unwaith eto, gyda ffioedd ceisiadau cynllunio DAC wedi'u tynnu a ffioedd ACLlau amcangyfrifedig wedi'u hychwanegu. Caiff ffioedd ar gyfer DAC eu tynnu am fod Adroddiad Arup yn cadarnhau bod y gost o £670,000 a nodwyd ar gyfer paratoi cais yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio DAC, ac ACLlau a fyddai'n penderfynu ar y ceisiadau hyn yn hytrach na Gweinidogion Cymru o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd. Nid yw'r adroddiad yn nodi beth yw'r ffioedd hyn ac felly maent wedi cael eu tynnu yn seiliedig ar y costau DAC sylfaenol i ddatblygwyr fel y'u nodir yn: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – Canllawiau Gweithdrefnol 2019.

*Opsiwn 2 – Costau Ymgyngoreion Statudol fesul blwyddyn – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd*

3.56 Amcangyfrifir mai'r costau cyffredinol i ymgyngoreion statudol am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd fyddai **£35,093** y flwyddyn. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn isod:

| **Tabl S – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i ymgyngoreion statudol am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd o dan Opsiwn 2** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Proses Cydsyniad Seilwaith newydd | (Yn seiliedig ar gostau ar gyfer DAC) Nododd Adroddiad Arup 5 cais DAC gyda chyfanswm o 8 ymateb gan ymgyngoreion statudol. Felly, cyfartaledd o (8/5) = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (A.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £2,125 i £6,100 fesul cais DAC = cost ganolrifol o £4,113 fesul cais (B.).<br><br>Cost gyfartalog fesul cais = (A. x B.) = £6,580 (C.).<br><br>Yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd y penderfynid ar 44 o geisiadau o dan broses Cydsyniad Seilwaith newydd yn y dyfodol (44/9) = 4.9 cais Cydsyniad Seilwaith y flwyddyn (D.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (C. x D.) = £32,169 (E.). |
| Costau ychwanegol yn sgil ymateb i geisiadau seilwaith y byddai ACLlau yn penderfynu arnynt o ganlyniad i broses Cydsyniad Seilwaith newydd | Yn seiliedig ar gostau ar gyfer DAC, nododd Adroddiad Arup 5 cais DAC gyda chyfanswm o 8 ymateb gan ymgyngoreion statudol. Felly, cyfartaledd o (8/5) = 1.6 ymateb gan ymgynghorai statudol fesul cais (F.).<br><br>Amcangyfrifodd Adroddiad Arup fod y costau i ymgyngoreion statudol yn amrywio o £2,125 i £6,100 fesul cais DAC = cost ganolrifol o £4,113 fesul cais (G.). |

| | |
|---|---|
| | Cost gyfartalog fesul cais = (F. x G.) = £6,580 (H.).<br><br>Yn seiliedig ar 4 cais DAC a welwyd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd y byddai ACLlau yn penderfynu arnynt yn y dyfodol (4/9) = 0.44 cynllun seilwaith i ACLlau benderfynu arnynt fesul blwyddyn, o'r rhai y penderfynodd Gweinidogion Cymru arnynt o'r blaen fel DAC (I.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (H. x I.) = £2,924 (J.). |
| **Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i ymgyngoreion statudol am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd o dan Opsiwn 2** | **(cyfanswm (E.) + (J.)) = £35,093 y flwyddyn.** |

3.57 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Disgwylir i gostau ymgyngoreion statudol am gymryd rhan mewn proses Cydsyniad Seilwaith newydd fod yn gyson â'r costau am gymryd rhan yn y broses DAC bresennol. Y rheswm dros hyn yw na ddisgwylir i natur ymatebion ymgyngoreion statudol i gynlluniau seilwaith newid yn sylweddol o dan unrhyw broses newydd o gymharu â'r gyfundrefn DAC bresennol. Yn hyn o beth, daw'r costau unwaith eto o Adroddiad Arup ar gyfer DAC a chânt eu cymhwyso'n unol â'r amcangyfrif o gostau ymgyngoreion statudol o dan Opsiwn 2.
- Disgwylir y bydd costau ychwanegol i ymgyngoreion statudol yn sgil ymateb i geisiadau seilwaith y penderfynid arnynt fel ceisiadau DAC o dan y prosesau presennol, ond a fyddai'n rhy fach i gael eu hystyried yn geisiadau Cydsyniad Seilwaith o dan broses Cydsyniad Seilwaith newydd ac felly y byddai ACLlau yn penderfynu arnynt. Unwaith eto, disgwylir i'r costau hyn fod yn gyson â'r costau i ymgyngoreion statudol sy'n cymryd rhan yn y broses DAC bresennol oherwydd, er yr ystyrir eu bod yn fach, byddent yn hwyluso ymatebion o natur sy'n gymesur â chynlluniau seilwaith y penderfynir arnynt o dan y gyfundrefn DAC bresennol. Mae amcangyfrifon o'r costau ychwanegol disgwyliedig hynny i'w gweld yn y tabl uchod.

## Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 3 – Sefydlu corff cydsynio annibynnol i benderfynu ar ‘Gydsyniadau Seilwaith Cymreig’

### *Opsiwn 3 – Egwyddorion Cyffredinol*

3.58 O dan yr opsiwn hwn, fel y nodir yn yr asesiad, byddai corff annibynnol yn gyfrifol am brosesau ceisiadau Cydsyniad Seilwaith a phenderfynu arnynt. Felly, tybir y byddai costau sefydlu cychwynnol y sefydliad yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac y byddai costau parhaus yn cael eu talu gan y corff annibynnol, ond yn cael eu hadennill drwy ffioedd ceisyddion.

### *Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Rhagdybiaethau Cyffredinol*

3.59 Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r costau a amlinellir ar gyfer cynnal Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith o dan yr opsiwn hwn, mae rhai enghreifftiau o astudiaethau achos blaenorol yn cynnig costau cymharol defnyddiol. Ar gyfer Arolygiaeth Gynllunio Cymru (PCAC bellach) sy'n gyfrifol am dasgau DAC a thasgau cynllunio eraill, gan gynnwys apeliadau, rhoddir dadansoddiad llawn o'i chostau rhedeg o 2015 tan 2019 yn Atodiad 5 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cyllideb Arolygiaeth Gynllunio Cymru oedd 2,252,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Roedd hyn yn cwmpasu:

- Costau rhedeg uniongyrchol adnodd Arolygydd penodedig Cymru;
- Costau rhedeg uniongyrchol staff swyddfa'r Arolygiaeth Gynllunio ym Mharc Cathays;
- Costau'r swyddfa ym Mharc Cathays;
- Canran o gostau gorbenion cyffredinol yr Arolygiaeth Gynllunio i ariannu gwasanaethau seilwaith gan gynnwys TG, Adnoddau Dynol ac yswiriant.

3.60 Y sefydliad tebycaf i Gorff Annibynnol o'r fath oedd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a oedd yn gweithredu yn Lloegr o 2008 tan 2011. Gellir defnyddio'r costau a'r adnoddau a oedd yn gysylltiedig â sefydlu a rhedeg y Comisiwn, a'u diwygio'n briodol i'r broses Cydsyniad Seilwaith, fel sail ar gyfer darganfod strwythur, adnoddau a chostau'r Corff Annibynnol ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Amcangyfrifodd yr Asesiad o Effaith y Bil Cynllunio (Llywodraeth y DU, Tachwedd 2007) gost untro o £5 miliwn am sefydlu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, gyda chostau swyddfa a staffio o £9.3 miliwn y flwyddyn. Gan ystyried chwyddiant, byddai hyn yn arwain at gostau sefydlu a chostau parhaus uwch heddiw. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith i Gymru yn llai ac felly y byddai ei gostau sefydlu a'i gostau blynyddol yn is.

3.61 Mae'r costau ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cyffredinol canlynol:

- Mae nifer o gostau amcangyfrifedig ar gyfer y corff annibynnol yn seiliedig ar Weinidogion Cymru yn rhoi swyddogaethau dyfarnu a rheoleiddio i gorff ‘hyd braich’ statudol a noddir gan Lywodraeth Cymru, sef Cymwysterau Cymru. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn

Opsiwn 3 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol[12] sy'n gysylltiedig â Bil Cymwysterau Cymru. Ystyrir bod enghraifft Cymwysterau Cymru yn debyg iawn i strwythur arfaethedig corff annibynnol ar gyfer penderfynu ar geisiadau Cydsyniad Seilwaith.

- Cydnabyddir bod costau Cymwysterau Cymru yn dyddio'n ôl i 2015 ac felly mae costau cymharol mwy diweddar ar gyfer sefydlu swyddogaethau sefydliadol wedi cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ffigurau hyn lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys costau sefydlu PCAC o fewn Llywodraeth Cymru. Lle y cyfeirir yn benodol at gostau Cymwysterau Cymru sy'n dyddio'n ôl i 2015, maent wedi cael eu diweddaru i gyfrif am chwyddiant at ddibenion yr asesiad.
- Amcangyfrifir mai cyfanswm staff sefydliad Cymwysterau Cymru yn Opsiwn 3 yw 73, yn seiliedig ar ei Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn ychwanegol at y staff hyn mae Bwrdd Llywodraethu'r sefydliad, sy'n cynnwys 11 o aelodau, gan wneud cyfanswm o 84 o staff ar gyfer yr Opsiwn hwn. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif (22 o aelodau o staff amser llawn ac 11 o aelodau bwrdd) o 33 o aelodau o staff ar gyfer yr opsiwn i sefydlu corff penderfynu annibynnol yn yr asesiad. Lle mae costau o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru wedi cael eu defnyddio'n uniongyrchol mewn perthynas â niferoedd y staff yn yr opsiwn Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, mae'r gymhareb ganlynol wedi cael ei chymhwyso:

| **Tabl T – Ffigurau staffio cymhwysol Cymwysterau Cymru wrth gyfrifo costau ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| Defnyddiwyd fformiwla ar gyfer costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, lle mae costau'n ymwneud â niferoedd staff.<br><br>• Cyfanswm staff Cymwysterau Cymru (gan gynnwys aelodau bwrdd) = 84 (A.).<br>• Cyfanswm staff Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith (gan gynnwys aelodau bwrdd) = 33 (B.). | (B.) / (A.) x 100 = **39% o gostau Cymwysterau Cymru wedi'u cymhwyso er mwyn bod yn gyson â lefelau staffio amcangyfrifedig ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

- Mae nifer y ceisiadau yn seiliedig ar yr un nifer o geisiadau seilwaith ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd o dan Opsiwn 2, sef tua 4.9 y flwyddyn. Y rheswm dros hyn yw y bydd y broses o dan yr opsiwn hwn yn berthnasol i'r un nifer a math o geisiadau ag Opsiwn 2, ond gyda chorff hyd braich yn gyfrifol am benderfynu arnynt yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Ar y sail hon, mae'r costau ar gyfer cyfansoddiad y corff annibynnol wedi cael eu nodi, ac maent yn berthnasol i'w drefniadau staffio yn arbennig.

[12] Memorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Staffio*

3.62 Mae'r costau ar gyfer lefelau staffio'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau, fel yr amlinellir isod.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Strwythur a chostau staff o ddydd i ddydd*

3.63 Amcangyfrifir mai'r costau ar gyfer lefelau staffio'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith o ddydd i ddydd fyddai **£1,391,675** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o niferoedd y staff o ddydd i ddydd ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, eu graddau ar lefel gyfatebol i Lywodraeth Cymru, a'u costau fel a ganlyn:

**Tabl U – Strwythur a chostau staff o ddydd i ddydd ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith**

| Rôl | Nifer y swyddi | Gradd Llywodraeth Cymru | Cost staff flynyddol fesul rôl[13] | Cyfanswm costau staff fesul blwyddyn (£) |
|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 1 CALL | 5 | £120,174 | 120,174 |
| Arweinydd Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr | 1 CALL | 7 | £86,731 | 86,731 |
| Arolygydd | 2 CALL | Dd/G – Yn seiliedig ar gostau cyfatebol Gradd 6 PCAC | £117,705[14] | 235,410 |
| Arolygydd | 2 CALL | Dd/G – Yn seiliedig ar gostau cyfatebol Gradd 7 PCAC | £95,215[15] | 190,430 |
| Arweinydd y Tîm Cynllunio | 1 CALL | Uwch-swyddog Gweithredol | £66,364 | 66,364 |
| Swyddog Cynllunio | 4 CALL | Swyddog Gweithredol Uwch | £52,774 | 211,096 |

[13] Mae'r costau staff yn seiliedig ar gostau cyflogau cyfartalog ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Darparwyd gan adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023.

[14] Mae costau arolygwyr yn seiliedig ar y costau staffio gwirioneddol ar gyfer Arolygwyr PCAC a ddarparwyd gan PCAC ym mis Ionawr 2023. Ystyrir ei bod yn briodol defnyddio'r ffigurau hyn am eu bod yn debycach i'r costau staffio gofynnol ar gyfer arolygwyr, o gymharu â graddau cyfatebol safonol Llywodraeth Cymru.

[15] Fel y troednodyn blaenorol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Adnoddau Dynol | 1 CALL | Swyddog Gweithredol Uwch | £52,774 | 52,774 |
| Arweinydd Cymorth Busnes (gan gynnwys cyfrifoldebau cyflogres) | 1 CALL | Swyddog Gweithredol Uwch | £52,774 | 52,774 |
| Rheolwr TGCh | 1 CALL | Swyddog Gweithredol Uwch | £52,774 | 52,774 |
| Swyddog Cynllunio Cynorthwyol | 4 CALL | Swyddog Gweithredol | £40,504 | 162,016 |
| Cymorth i Gwsmeriaid / Cyfathrebu | 1 CALL | Swyddog Gweithredol | £40,504 | 40,504 |
| Cymorth TG | 1 CALL | Swyddog Gweithredol Uwch | £52,774 | 52,774 |
| Cymorth Busnes (derbynnydd) | 2 CALL | Cymorth Tîm | £33,927 | 67,854 |
| **Cyfanswm** | **22** | | | **£1,391,675** |

3.64 Mae'r dadansoddiad uchod o lefelau staffio a'u costau ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith newydd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd yn debyg i strwythur sefydliadol PCAC am y bydd yn penderfynu ar nifer tebyg o geisiadau seilwaith bob blwyddyn. Ystyrir y bydd angen i'r sefydliad annibynnol fabwysiadu strwythur tebyg i PCAC er mwyn sicrhau y gall brosesau ceisiadau Cydsyniad Seilwaith yn effeithlon. Caiff rhai cyfrifoldebau staff newydd eu cyflwyno oherwydd natur ymreolaethol asiantaeth newydd ac mae'r cyfrifoldebau hynny a ragwelir wedi cael eu cynnwys yn y strwythur uchod a'i gostau hefyd.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Strwythur a chostau Bwrdd Llywodraethu*

3.65 Ystyrir bod lefel cyfranogiad Bwrdd Llywodraethu Cymwysterau Cymru yn debyg i'r cyfranogiad a fyddai gan Fwrdd Llywodraeth mewn Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith; felly, ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso strwythur tebyg i Fwrdd Llywodraethu Cymwysterau Cymru, gyda chadeirydd a 10 aelod bwrdd, a'r costau cysylltiedig ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn yr achos hwn. Felly, mae'r costau ar gyfer Bwrdd Llywodraethu'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer talu Bwrdd Cymwysterau

Cymru, sef £35,000 ar gyfer cadeirydd a £7,500 ar gyfer 10 aelod bwrdd[16]. Mae'r costau terfynol ar gyfer Bwrdd Llywodraethu'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith wedi cael eu cyfrifo ar y sail honno, ac amcangyfrifir y byddant yn **£132,330** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl V – Bwrdd Llywodraethu – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Cost Cadeirydd ar gyfer Bwrdd Llywodraethu Cymwysterau Cymru, amcangyfrif o fis Mehefin 2015 = £35,000 (A.).<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi cost 2015/2016 yn bris cyfredol. | (A.) x (B.) = **cost amcangyfrifedig o £42,105 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith**. |
| • Costau aelodau bwrdd ar gyfer Bwrdd Llywodraethu Cymwysterau Cymru, amcangyfrif o fis Mehefin 2015 = £7,500 yr un (C.).<br>• Cyfanswm nifer yr aelodau bwrdd = 10 (D.).<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (E.) er mwyn trosi cost 2015/2016 yn bris cyfredol. | (C.) x (D.) x (E.) = **cost amcangyfrifedig o £90,225 y flwyddyn ar gyfer Aelodau Bwrdd Llywodraethu Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith. *Costau o £9,023 y flwyddyn am bob aelod unigol o'r bwrdd.*** |
| **Cyfanswm costau staff 11 o Aelodau Bwrdd Llywodraethu Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | **£132,330 y flwyddyn.** |

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Recriwtio, adleoli a hyfforddi staff*

3.66 Mae'r costau ar gyfer recriwtio, adleoli a hyfforddi staff (ar gyfer systemau newydd ac ati) yn seiliedig ar ffigurau ar gyfer sefydlu strwythur staffio Cymwysterau Cymru, wedi'u cymhwyso at ddibenion y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, ac amcangyfrifir y byddant yn **£137,936**. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

[16] Fel y nodir ym Mharagraff 15 o Femorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015.

| Tabl W – Recriwtio, Adleoli a Hyfforddi Staff – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Costau sefydlu 2015/2016 ar gyfer recriwtio, adleoli a hyfforddi staff Cymwysterau Cymru = £294,000 (A.)[17].<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi cost 2015/2016 yn bris cyfredol.<br>• Cymhwyso fformiwla staffio o 39%, lluosi â 0.39 (C.), er mwyn cysoni â lefelau staffio ar gyfer corff Cydsyniad Seilwaith newydd. | (A.) x (B.) x (C.) **= cost amcangyfrifedig o £137,936 ar gyfer recriwtio, adleoli a hyfforddi staff ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Costau wrth gefn ar gyfer staff*

3.67 Amcangyfrifir costau wrth gefn ychwanegol ar gyfer staff ar lefel o 10% o gyfanswm y costau staff, sef **£152,401** y flwyddyn, ac maent wedi'u cynnwys er mwyn ystyried ffactorau fel teithio a chynhaliaeth ac archwilio. Ystyrir bod y ffigur o 10% yn realistig ac mae'n seiliedig ar amcangyfrifon o gostau wrth gefn ar gyfer y darpariaethau cynllunio yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cynllunio (Cymru) dyddiedig Ebrill 2015. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| Tabl X – Costau wrth gefn ar gyfer staff – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Cyfanswm y costau ar gyfer staffio'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith o ddydd i ddydd = £1,391,675 (A.) y flwyddyn (fel y nodir uchod).<br>• Cyfanswm y costau ar gyfer Aelodau Bwrdd Llywodraethu'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith = £132,330 (B.) y flwyddyn (fel y nodir uchod).<br>• Cymhwyso 10% o gyfanswm y costau staff, lluosi â 0.1 (C.), er mwyn canfod y costau wrth gefn ar gyfer staff. | ((A.) + (B.)) x (C.) **= cost wrth gefn amcangyfrifedig o £152,401 y flwyddyn ar gyfer staff y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

[17] Fel y nodir ym Mharagraff 82 o Femorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill*

3.68 Byddai angen i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith gael cyllideb ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill, gan gynnwys cyfieithu. Ystyrir y byddai'r costau hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer gwasanaethau tebyg a fyddai'n berthnasol i Cymwysterau Cymru. Felly, mae'r costau ar gyfer y gwasanaethau hynny wedi cael eu cyfrifo ar y sail honno, gan roi cyfanswm amcangyfrifedig o **£368,118** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl Y – Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Costau gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill i Cymwysterau Cymru, amcangyfrif o fis Mehefin 2015 = £306,000 (A.).<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi cost 2015/2016 yn bris cyfredol. | (A.) x (B.) = **cost amcangyfrifedig o £368,118 y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith**. |

3.69 Nid ystyrir y byddai gwahaniaethau rhwng lefelau staffio'r ddau sefydliad yn effeithio ar y costau ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith o gymharu â Cymwysterau Cymru. Felly, nid yw'r cyfrifiad uchod yn cysoni lefelau staffio Cymwysterau Cymru â'r rhai ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.

***Opsiwn 3 – Costau'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Hyfforddi a lledaenu gwybodaeth ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd***

3.70 O dan yr opsiwn hwn, ystyrir y byddai costau pellach sy'n gysylltiedig â hyfforddi a lledaenu gwybodaeth yn sgil rhoi cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd ar waith, sef cyfanswm o (A. + B.) **£25,965**. Byddai'r trefniadau'n debyg i'r rhai o dan Opsiwn 2, lle y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal yr hyfforddiant am gost o **£6,988** (A.). Fodd bynnag, byddai'r gost yn gysylltiedig â hyfforddi staff y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith a fyddai'n gyfrifol am y gyfundrefn, yn hytrach na holl staff PCAC (na fyddai eu swyddogaethau'n perthyn i gylch gwaith cyfundrefn newydd ar gyfer yr opsiwn hwn). Amcangyfrifir y byddai rhoi hyfforddiant i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith ar gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd yn golygu cost untro o **£18,977** (B.). Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| Tabl Z – Hyfforddi a Lledaenu Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Newydd – Costau i swyddogion Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith fod yn bresennol mewn hyfforddiant | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Cost Gradd 5 (x1 yn bresennol) | Costau Arolygydd Gradd 6 (x2 yn bresennol) | Costau Arolygydd Gradd 7 (x2 yn bresennol) | Cost Gradd 7 (x1 yn bresennol) | Cost Uwch-swyddog Gweithredol (x1 yn bresennol) | Costau Swyddogion Gweithredol Uwch (x8 yn bresennol) | Costau Swyddogion Gweithredol (x5 yn bresennol) | Costau Cymorth Tîm (x2 yn bresennol) |
| 3 digwyddiad hyfforddi diwrnod llawn | £1,639 | £3,210 | £2,597 | £1,183 | £905 | £5,757 | £2,762 | £925 |
| **Cyfanswm costau lledaenu gwybodaeth / ymgyfarwyddo** | | | | | **£18,977** | | | |

3.71 Mae'r costau ar gyfer rhoi hyfforddiant i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar y strwythur staffio a'r costau a amlinellwyd yn flaenorol ar gyfer y sefydliad, gyda phob aelod o staff yn cael tri diwrnod llawn o hyfforddiant ar y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd.

***Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Canllawiau***

3.72 Gweler y costau ar gyfer canllawiau pwrpasol o dan Opsiwn 2. Byddai'r gost hon yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a fyddai'n dal yn gyfrifol am roi'r polisi ar waith yn gyffredinol o dan yr opsiwn hwn.

***Opsiwn 3 – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Seilwaith TG***

3.73 Ystyrir y byddai costau sefydlu TG a chostau parhaus cysylltiedig ar gyfer sefydliad newydd yn debyg i'r costau cyfatebol ar gyfer Cymwysterau Cymru, a oedd yn cynnwys cyfuniad o seilwaith cwmwl a gweinydd. Ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, mae hefyd angen ystyried costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwasanaeth TG er mwyn i'r cyhoedd gyhoeddi ceisiadau Cydsyniad Seilwaith; lle mae'r costau'n seiliedig ar wasanaeth “Ceisiadau Cynllunio Cymru” sy'n cynnig dull electronig o gyflwyno ceisiadau cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol yng

Nghymru[18]. Mae'r costau hyn wedi cael eu cyfrifo ar y sail honno, gyda chost sefydlu amcangyfrifedig o **£684,733**. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl AA – Sefydlu TG – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Costau sefydlu TG ar gyfer Cymwysterau Cymru, amcangyfrif o fis Mehefin 2015 = £1,244,000 (A.). Mae'r gost hon yn seiliedig ar gostau sefydlu cyfalaf seilwaith TGCh o £664,000 a £580,000 ar gymorth ymgynghori TGCh, WAN a meddalwedd arall[19].<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi costau 2015/16 yn brisiau cyfredol.<br>• Cymhwyso fformiwla staffio o 39%, lluosi â 0.39 (C.), er mwyn cysoni â lefelau staffio ar gyfer corff Cydsyniad Seilwaith newydd. Ystyrir y bydd y costau hyn yn talu am gyfarpar perthnasol ar gyfer aelodau o staff ac aelodau o fwrdd y sefydliad.<br>• Cost sefydlu TG ar gyfer gwasanaeth er mwyn i'r cyhoedd gyflwyno ceisiadau Cydsyniad Seilwaith yn electronig i'r corff annibynnol. Ffigur yn seiliedig ar gost sefydlu "Ceisiadau Cynllunio Cymru", sef £87,143 yn 2017/2018 (D.).<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.160 (E.), er mwyn trosi cost 2017/2018 yn bris cyfredol. | ((A.) x (B.) x (C.)) + ((D.) x (E.)) = **cost amcangyfrifedig o £684,733 ar gyfer sefydlu seilwaith TG y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

3.74 Mae'r gost amcangyfrifedig ar gyfer sefydlu seilwaith TG yn debyg i gostau diweddar ar gyfer trosglwyddo systemau TG Arolygiaeth Gynllunio Cymru i Lywodraeth Cymru ar ffurf PCAC (sef amcangyfrif o tua £500,000 i gyd, yn ôl swyddogion cynllunio Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar y prosiect). Felly, oherwydd natur debyg y gwasanaeth cynllunio y byddai PCAC a Chorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith newydd yn ei ddarparu, ystyrir y gellir cyfiawnhau'r gost amcangyfrifedig.

---

[18] Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru sy'n caffael gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru ac felly ganddi hi mae'r wybodaeth am ei gostau rhedeg.
[19] Fel y nodir ar Dudalennau 123 i 125 o Femorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015.

3.75 Amcangyfrifir mai'r costau parhaus ar gyfer seilwaith TG fyddai **£312,799** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl AB – TG Parhaus – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Costau TG parhaus ar gyfer Cymwysterau Cymru, amcangyfrif o fis Mehefin 2015 = £504,000. Mae'r gost hon yn seiliedig ar wasanaeth ymgynghori £95,000, WAN £87,000, meddalwedd arall £70,000, Microsoft Support £47,000, caledwedd £27,000, lletya a thrwyddedu £178,000[20].<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi costau 2015/16 yn brisiau cyfredol.<br>• Cymhwyso fformiwla staffio o 39%, lluosi â 0.39 (C.), er mwyn cysoni â lefelau staffio ar gyfer corff Cydsyniad Seilwaith newydd. Ystyrir y bydd y costau hyn yn talu am gyfarpar perthnasol ar gyfer aelodau o staff ac aelodau o fwrdd y sefydliad.<br>• Cost TG parhaus ar gyfer gwasanaeth er mwyn i'r cyhoedd gyflwyno ceisiadau Cydsyniad Seilwaith yn electronig i'r corff annibynnol. Mae'r ffigur yn seiliedig ar y costau presennol ar gyfer cyflawni “Ceisiadau Cynllunio Cymru”, sef £76,337 y flwyddyn (D.). | ((A.) x (B.) x (C.)) + (D.) **= cost TG amcangyfrifedig o £312,799 y flwyddyn i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

3.76 Mae'r gost barhaus amcangyfrifedig hon ar gyfer gweithredu TG yn debyg i gostau rhedeg seilwaith tebyg ar gyfer Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru cyn iddi ddod yn rhan o Lywodraeth Cymru, lle roedd cyfanswm costau o tua £282,015[21] y flwyddyn yn 2019. Ystyrir ei bod yn rhesymol cymharu'r ffigur hwn â chostau TG ar gyfer y sefydliad newydd fesul blwyddyn oherwydd disgwylir iddynt fod yn debyg o ran natur, gyda'r ddau'n cyfrannu at systemau gweithredu TGCh pwrpasol ar gyfer lefelau staffio tebyg.

***Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Costau swyddfa***

3.77 Amcangyfrifir y byddai'r costau swyddfa ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn **£193,113** ar gyfer sefydlu (gan gynnwys gosodiadau a ffitiadau), gyda chost flynyddol o **£81,523** (£42,500 rhent + £39,023 cyfleusterau) a **dim cost dibrisiant** ar ôl pum mlynedd (heb

[20] Fel y nodir ar Dudalennau 123 i 125 o Femorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015.
[21] A new Planning Inspectorate for Wales Business Case, Hydref 2019, Llywodraeth Cymru.

gynnwys TG, y mae costau cynnal a chadw parhaus eisoes wedi'u hamcangyfrif ar ei chyfer). Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau sy'n gysylltiedig â'r uchod yn yr adrannau sy'n dilyn.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Manylion costau swyddfa chostau rhent blynyddol*

3.78 Amcangyfrifir y math o gostau swyddfa a chostau rhent blynyddol ar gyfer swyddfa a fyddai'n cael ei defnyddio gan Gorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith fel a ganlyn:

| **Tabl AC – Manylion costau swyddfa a chostau rhent blynyddol – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Nifer y staff y disgwylir iddynt ddefnyddio swyddfa Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith = 22. (A.). Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys yr 11 o aelodau o fwrdd y sefydliad, gan na fyddent yn gweithio yn y sefydliad o ddydd i ddydd ond yn hytrach yn mynychu cyfarfodydd o bryd i'w gilydd. Hefyd, rhagwelir y byddent yn debygol o gyflawni'r rhan fwyaf o'u dyletswyddau o bell.<br>• Mae Polisi Gweithio o Bell Llywodraeth Cymru yn anelu at gael 70% o staff yn gweithio yn y swyddfa, gyda'r 30% sy'n weddill yn gweithio gartref neu'n agosach at adref yn rheolaidd. Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y byddai canran debyg o staff yn gweithio yn y swyddfa i Gorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith. Felly, cyfanswm y staff a fyddai'n gweithio yn y swyddfa ar unrhyw adeg benodol ar gyfer y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith = (A.) x 0.7 (gan gymhwyso 70% fel cymhareb) = 16 (B.) (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf yn yr achos hwn gan fod y ffigur yn cael ei gymhwyso at unigolion).<br>• Rhagdybiaeth o 110 troedfedd sgwâr (C.) o le swyddfa (sy'n gyfwerth â 10 metr sgwâr o le swyddfa) yn ofynnol fesul person. Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar drefniadau tebyg o ran lle gweithio ar gyfer ystadau Llywodraeth Cymru, gan nodi 11 metr sgwâr fesul person yn Oak House, Casnewydd (fel y nodwyd yn yr amcangyfrif o gostau ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, dyddiedig Ebrill 2021).<br>• Ar gyfer swyddfa a fyddai'n cael ei defnyddio gan 16 o aelodau o staff, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y byddai angen cyfanswm arwynebedd llawr o tua (B. x C., wedi'i dalgrynnu i'r 1,000 agosaf) = 2,000 troedfedd sgwâr (D.) ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith. | (D. x E.) **= costau rhent blynyddol amcangyfrifedig o £42,500 ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

| | |
|---|---|
| • Mae Is-adran Seilwaith Eiddo Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd costau rhent blynyddol ar gyfer safleoedd o'r fath tua £20-22.50 fesul troedfedd sgwâr[22]. Mae'r gost hon yn seiliedig ar ragdybiaeth o'r angen i ddefnyddio swyddfeydd sydd eisoes ar gael yn ardal canol dinas Caerdydd er mwyn sefydlu Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith newydd. Felly, mae cost rhent flynyddol ganolrifol o £21.50 fesul troedfedd sgwâr (E.) wedi cael ei chymhwyso at ddibenion yr asesiad hwn. | |

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Gosodiadau a ffitiadau swyddfa*

3.79 O ran sefydlu swyddfa ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, byddai costau cychwynnol ar gyfer gosodiadau a ffitiadau, ac amcangyfrifir y byddent fel a ganlyn:

| **Tabl AD – Gosodiadau a Ffitiadau Swyddfa – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Mae amcangyfrifon o gostau swyddfa ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, dyddiedig Ebrill 2021, wedi cael eu cymhwyso at ddibenion cyfrifo costau gosodiadau a ffitiadau. Mae'r amcangyfrifon hyn o gostau fel a ganlyn:<br>• Costau dodrefn – £3,225 fesul gweithfan; gan gymhwyso'r gymhareb o 5 gweithfan i bob 10 aelod o staff, tybir y byddai angen 8 gweithfan yn yr achos hwn ar gyfer 16 o aelodau o staff. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ar gyfer dodrefn/gweithfannau fyddai (£3,225 x 8) = £25,800 (A.).<br>• Cael gwared ar aelodau presennol o staff – £12 fesul person; os caiff y staff eu disodli ar sail tebyg am debyg ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith newydd, byddem yn tybio y byddai hyn yn cyfateb i gael gwared ar 16 o aelodau o staff am gyfanswm o (£12 x 16) = £192 (B.).<br>• Gwaith dodrefnu cyfalaf, tybir y byddai hyn ar gyfer swyddfa bwrpasol ail law am gost o £850 fesul metr sgwâr; ac amcangyfrifir | ((A.) + (B.) + (C.)) x (D.) **= costau sefydlu amcangyfrifedig o £193,113 ar gyfer gosodiadau a ffitiadau swyddfa ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

[22] Yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau a ddarparwyd gan Is-adran Seilwaith Eiddo Llywodraeth Cymru ar 22 Medi 2022.

| | |
|---|---|
| mai arwynebedd y swyddfa fyddai 2,000 troedfedd sgwâr, sy'n cyfateb i 186 metr sgwâr. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm cost y gwaith dodrefnu cyfalaf ar gyfer y swyddfa fyddai (£850 x 186) = £158,100 (C.).<br>• Gan fod y costau uchod wedi dod o wybodaeth a ddarparwyd ym mis Ebrill 2021, caiff ffigur chwyddiant o 1.049 (D.) ei gymhwyso er mwyn trosi costau 2021/22 yn brisiau cyfredol. | |

3.80 Ymhellach at yr uchod, nid oes costau parhaus wedi cael eu hychwanegu ar gyfer gosodiadau a ffitiadau oherwydd ystyrir y byddai cost o'r fath yn fach iawn dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd at ddibenion yr asesiad hwn. Er enghraifft, nid ystyrir y byddai angen prynu dodrefn newydd yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Cyfleusterau swyddfa*

3.81 Byddai costau cyfleusterau parhaus yn berthnasol i swyddfa ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, ac fe'u hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| **Tabl AE – Cyfleusterau Swyddfa – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Mae amcangyfrifon o gostau swyddfa ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, dyddiedig Ebrill 2021, wedi cael eu cymhwyso at ddibenion cyfrifo costau ar gyfer cyfleusterau. Mae'r amcangyfrifon hyn o gostau fel a ganlyn:<br>• Ardrethi ar gost o £37.50 fesul metr sgwâr. Wedi'u cymhwyso at swyddfa 2,000 troedfedd sgwâr o faint, sy'n cyfateb i 186 metr sgwâr, ac amcangyfrifir cyfanswm costau ardrethi o (£37.50 x 186) = £6,975 (A.) y flwyddyn.<br>• Amcangyfrifir costau eraill o £162.50 fesul metr sgwâr. Ystyrir y byddai'r costau eraill hyn yn cynnwys costau cyffredinol ar gyfer cyfleusterau. Wedi'u cymhwyso at swyddfa 2,000 troedfedd sgwâr o faint, sy'n cyfateb i 186 metr sgwâr, ac amcangyfrifir cyfanswm costau cyfleusterau o (£162.50 x 186) = £30,225 (B.) y flwyddyn. | ((A.) + (B.)) x (C.) **= costau amcangyfrifedig o £39,023 y flwyddyn am gyfleusterau swyddfa i'r Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

| | |
|---|---|
| • Gan fod y costau uchod wedi dod o wybodaeth a ddarparwyd ym mis Ebrill 2021, caiff ffigur chwyddiant o 1.049 (C.) ei gymhwyso er mwyn trosi costau 2021/22 yn brisiau cyfredol. | |

3.82 Ystyrir y bydd y costau uchod ar gyfer cyfleusterau yn gwastatáu yn ystod y cyfnod arfarnu pum mlynedd ac maent yn cynnwys costau ar gyfer ardrethi, darparu cyfleustodau, gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a gwaith gweinyddol. Tybir na fydd y costau ar gyfer gwaith gweinyddol yn sylweddol gan y bydd rhan fwyaf o waith y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith wrth brosesu ceisiadau yn cael ei wneud yn electronig drwy'r cyfarpar TG sydd eisoes wedi'i gostio.

*Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Dibrisiant swyddfa*

3.83 Yn seiliedig ar gymhwyso'r cyfnod arfarnu pum mlynedd at ddibenion yr asesiad hwn, ystyrir na fyddai costau dibrisiant ychwanegol ar ôl pum mlynedd ar gyfer rhedeg swyddfa Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith. Mae'r costau ar gyfer cynnal a chadw TG eisoes wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn fel rhan o'r gwaith cyfrifo ar gyfer costau TG parhaus. Cydnabyddir y byddai angen prynu dodrefn newydd dros amser, ond ystyrir mai ar ôl 10 mlynedd y byddai hyn yn digwydd, yn ystod nag ar ôl pum mlynedd[23].

***Opsiwn 3 – Costau Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith – Seilwaith***

3.84 Mae'r costau blynyddol ar gyfer yswiriant i bob aelod o staff y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn seiliedig ar gostau tebyg i Cymwysterau Cymru ac amcangyfrifir y byddant yn **£41,605** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl AF – Yswiriant – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Cost yswiriant fesul aelod o staff ar gyfer Cymwysterau Cymru, Mehefin 2015 = £1,048 (A.).<br>• Wedi cymhwyso ffigur chwyddiant o 1.203 (B.) er mwyn trosi costau 2015/16 yn brisiau cyfredol.<br>• Trefniadau staffio ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, gan gynnwys aelodau bwrdd = 33 (C.). | (A.) x (B.) x (C.) **= cost yswiriant flynyddol o £41,605 ar gyfer Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

[23] Mae amcangyfrifon o gostau swyddfa ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, dyddiedig Ebrill 2021, yn rhagweld y byddai costau adnewyddu ar gyfer y swyddfa, gan gynnwys dodrefn, yn ofynnol bob 10 mlynedd.

***Opsiwn 3 – Costau ACLlau – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd y byddai Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn gyfrifol amdani***

3.85 Byddai'r costau i ACLlau yn sgil cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd o dan Opsiwn 3 yr un faint â'r costau o dan Opsiwn 2. Am ddadansoddiad manwl o'r costau hyn, gweler: “Opsiwn 2 – Costau ACLlau – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd”.

***Opsiwn 3 – Costau datblygwyr – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd y byddai Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn gyfrifol amdani***

3.86 Amcangyfrifir y bydd y costau i ddatblygwyr am gymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd a gaiff ei rhedeg gan Gorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith o dan Opsiwn 3 yr un faint â'r costau sefydlu o dan Opsiwn 2, sef **£3,030**, ond gyda chostau parhaus gwahanol, sef **£5,390,317** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau parhaus i ddatblygwyr o dan yr opsiwn hwn fel a ganlyn:

| **Tabl AG – Costau Datblygwyr Fesul Blwyddyn – Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Fformiwla | |
| • Costau datblygwyr ar gyfer ceisiadau y bydd Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn penderfynu arnynt o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd:<br>• £897,230 (A.) (cyfanswm y gost i ddatblygwyr fesul cais sydd wedi cael ei chymhwyso at Opsiwn 2, heb gynnwys cynlluniau priffyrdd);<br>• Gan y byddai'r ffioedd yn cynnwys costau rhedeg y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith (gweler y pwynt bwled isod), mae'r ffioedd DAC presennol wedi cael eu tynnu. Y ffioedd hyn yw £227,230 (B.), £580 (C.), £15,350 (D.), £7,750 (E.) a £14,700 (F.) (ffioedd a nodwyd yn Adroddiad Arup, yn ogystal â ffi hysbysu DAC, ffi gychwynnol, ffi Adroddiad ar yr Effaith Leol a ffi benderfynu yn y drefn honno).<br>• Lluosi'r ffigur â chyfanswm nifer y ceisiadau. Mae chwe chynllun priffyrdd y penderfynid arnynt fel ceisiadau Cydsyniad Seilwaith wedi | (H.) + (I.) + (J.) **= cost flynyddol o £5,390,317 i ddatblygwyr ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd a gaiff ei rhedeg gan Gorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith.** |

| | |
|---|---|
| cael eu diystyru o'r rhan hon o'r gwaith cyfrifo[24]. Felly mae'n gymwys i gyfanswm o ((44 – 6)/9) 4.2 (G.) o geisiadau.<br>• Felly, cyfanswm y gost i ddatblygwyr, heb gynnwys ffioedd ceisiadau yw ((A.) – (B.) – (C.) – (D.) – (E.) – (F.)) x (G.) = £2,666,840 (H.).<br>• Cyfanswm y gost barhaus ychwanegol i ddatblygwyr fesul blwyddyn am redeg gwasanaeth Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith, sef yr elfen ffioedd i yn y bôn gan y byddai'n gweithredu ar sail adennill costau'n llawn = £2,480,451 (I.)[25]. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y costau blaenorol i Gorff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith a amlinellir uchod, gan gynnwys staff, yswiriant, a swyddfa ac ati.<br>• Cost ychwanegol ar gyfer ceisiadau seilwaith y bydd ACLlau yn penderfynu arnynt heb fod o dan gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd. Mae hyn yr un faint ag a nodir o dan Opsiwn 2, sef £243,026 (J.). | |

***Opsiwn 3 – Costau Ymgyngoreion Statudol fesul blwyddyn – Cymryd rhan mewn cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd y byddai Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith yn gyfrifol amdani***

3.87 Gweler y costau a nodir ar gyfer ymgyngoreion statudol o dan Opsiwn 2 ar gyfer cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd, y disgwylir iddynt fod yn gymwys o dan yr opsiwn hwn.

---

[24] Dim ond ffioedd penderfynu sydd wedi cael eu cymhwyso at gostau datblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd ar draws pob opsiwn; gweler paragraff 3.27 o'r papur hwn. Byddai costau penderfynu i ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn cael eu cynnwys fel costau y byddai datblygwyr yn mynd iddynt am redeg y Corff Annibynnol Cydsyniad Seilwaith; gweler y pwynt bwled isod yn y prif destun.

[25] Noder y byddai cymhwyso'r ffigur hwn at bob cais unigol yn arwain at ffi i ddatblygwyr o (rhannu ag amcangyfrif o (44/9) 4.9 cais y flwyddyn) £507,365 fesul cais.

**Dulliau Gweithredu a Rhagdybiaethau Manwl – Opsiwn 4 – Sefydlu cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson er mwyn i uned o fewn Llywodraeth Cymru benderfynu arnynt**

***Opsiwn 4 – Egwyddorion Cyffredinol***

3.88 O dan yr opsiwn hwn, fel y nodir yn yr asesiad, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i is-ddeddfwriaeth ar gyfer yr amrywiol gyfundrefnau cydsynio seilwaith er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Byddai uned newydd o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran Gweinidogion Cymru.

3.89 Ar gyfer yr opsiwn hwn, gan y byddai'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith yn aros yr un peth â'r rhai ar gyfer Opsiwn 1, mae'r rhan fwyaf o'r costau wedi cael eu cymhwyso ar y sail honno.

3.90 Fodd bynnag, gan y byddai prosesau mwy cyson a syml yn cael eu sicrhau drwy ddiwygio deddfwriaeth, ystyrir y byddai modd gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy archwilio ceisiadau yn gydamserol, a chynnig strwythur ffioedd priodol er mwyn sicrhau y gellir adennill costau'n llawn ar gyfer pob math o achos.

3.91 Gan fod cyfundrefnau tebyg ar waith fel o dan Opsiwn 1, ond gydag addasiadau er mwyn sicrhau gwell prosesau, disgwylir y byddai'r costau i awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol o dan yr opsiwn hwn yn aros yr un faint ag ar gyfer Opsiwn 1.

***Opsiwn 4 – Costau datblygwyr fesul blwyddyn – Cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson***

3.92 Amcangyfrifir mai'r costau i ddatblygwyr am gymryd rhan mewn gwell cyfundrefnau cydsynio seilwaith o dan Opsiwn 4 fyddai **£4,757,856** y flwyddyn. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn fel a ganlyn:

| **Tabl AH – Dadansoddiad o'r costau fesul blwyddyn i'r diwydiant datblygu ar gyfer cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson o dan Opsiwn 4.** | |
|---|---|
| Cyfundrefn | Cost |
| Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | £0 (A.). |
| Caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) o dan a.62(D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Cyfanswm o 36 o geisiadau DAC yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd. Cyfanswm nifer fesul blwyddyn = 36 / 9 = 4 (B.). |

| | |
|---|---|
| | Costau datblygwyr, sef £897,230 (C.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (B. x C.) = £3,588,920 (D.). |
| Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | 2 orsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y gorsafoedd cynhyrchu fesul blwyddyn = 2 / 9 = 0.2 (E.).<br><br>Gorsafoedd cynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan sy'n cynnwys costau paratoi o Adroddiad Arup, a chostau sylfaen ceisiadau DAC, a chostau ychwanegol ceisiadau DAC o Adroddiad Arup = + £1,373,889 + £38,380 + £227,230 = £1,639,499 (F.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (E. x F.) = £364,333 (G.). |
| Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 | 5 Gorchymyn Harbwr yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Harbwr fesul blwyddyn = 5 / 9 = 0.6 (H.).<br><br>Gorchmynion Harbwr sy'n cynnwys costau paratoi o Adroddiad Arup, a chostau sylfaen ceisiadau DAC, a chostau ychwanegol ceisiadau DAC o Adroddiad Arup = + £176,333 + £38,380 + £227,230 = £441,943 (I.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (H. x I.) = £245,524 (J.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1 Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd fesul blwyddyn = 1 / 9 = 0.1 (K.).<br><br>Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd sy'n cynnwys costau paratoi o Adroddiad Arup, a chostau sylfaen ceisiadau DAC, a |

| | |
|---|---|
| | chostau ychwanegol ceisiadau DAC o Adroddiad Arup = + £2,110,000 + £38,380 + £227,230 = £2,375,610 (L.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (K. x L.) = £263,957 (M.). |
| Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 | 10 Gorchymyn Priffyrdd yn ystod y cyfnod naw mlynedd a aseswyd.<br><br>Nifer y ceisiadau Gorchymyn Priffyrdd a ragwelir fesul blwyddyn = 10 / 9 = 1.1 (N.).<br><br>Gorchmynion Priffyrdd sy'n cynnwys costau sylfaen ceisiadau DAC, a chostau ychwanegol ceisiadau DAC o Adroddiad Arup = £38,380 + £227,230 = £265,610 (O.).<br><br>Cyfanswm y gost fesul blwyddyn = (N. x O.) = £295,122 (P.). |
| **Cyfanswm y gost fesul blwyddyn i'r diwydiant datblygu ar gyfer cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson o dan Opsiwn 4.** | **(cyfanswm (A.), (D.), (G.), (J.), (M.), (P.)) = £4,757,856 y flwyddyn.** |

3.93 Mae'r costau i'r diwydiant datblygu am gymryd rhan mewn cyfundrefnau cydsynio seilwaith gwell o dan yr opsiwn hwn yn debyg i'r costau datblygwyr o dan Opsiwn 1, ar wahân i'r cafeatau canlynol:

- Ar gyfer cyfundrefnau cydsynio heblaw DAC, ystyrir bod diwygiadau yn debygol o gael eu gwneud i'w cysoni'n agosach â gofynion a strwythurau ffioedd y gyfundrefn gydsynio DAC er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd. Felly, byddai'r costau fesul cais yn dilyn y model DAC yn gyffredinol. Mae hyn wedi arwain at gostau fesul cais ar gyfer y cyfundrefnau eraill hynny yn cael eu cyfrifo ar sail cymryd dim ond y costau paratoi cyfartalog ar gyfer pob math o gyfundrefn gydsynio o Adroddiad Arup, ac adio hynny at gostau sylfaen ceisiadau DAC a chostau ychwanegol ceisiadau DAC.
- Daw costau sylfaen ceisiadau DAC o Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – Canllawiau Gweithdrefnol 2019 ac maent yn cynnwys y ffi hysbysu o £580, ffi gychwynnol o £15,350, ffi Adroddiad ar yr Effaith Leol o £7,750 a ffi benderfynu o £14,700.
- Daw costau ychwanegol ceisiadau DAC o Adroddiad Arup, a'u cyfanswm yw £227,230. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau eraill i ddatblygwyr yn sgil ceisiadau, megis ffi archwilio a chost cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais.
- Yr unig eithriad i'r uchod yw'r costau ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd oherwydd, er bod costau DAC wedi cael eu cymhwyso, nid yw costau paratoi cyfartalog wedi cael eu cynnwys yn y gwaith cyfrifo. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond ffioedd penderfynu sydd wedi cael eu cymhwyso at gostau datblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd ar draws pob opsiwn; gweler paragraff 3.27 o'r papur hwn.

***Opsiwn 4 – Costau Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar gyfer cyfundrefnau cydsynio seilwaith llwybr carlam a chyson***

3.94 Amcangyfrifir mai'r gost i Lywodraeth Cymru am lunio canllawiau pwrpasol ar y gofynion newydd ar gyfer gwelliannau i'r cyfundrefnau presennol fyddai **£4,202**. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r costau hyn yn ôl tasg a graddfa staff Llywodraeth Cymru isod:

| **Tabl AI – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfundrefnau Cydsynio Seilwaith Llwybr Carlam a Chyson** | | |
|---|---|---|
| Tasg | Cost Uwch-swyddog Gweithredol | Cost Swyddog Gweithredol Uwch |
| Gwaith cychwynnol i baratoi canllawiau (15 diwrnod) | £0 | £3,598 |
| Cymeradwyo'r canllawiau terfynol (2 ddiwrnod) | £603 | £0 |
| **Cyfanswm costau** | **£4,202** | |

3.95 Mae'r costau uchod yn seiliedig ar y cyfansoddiad canlynol o ran tasgau a rhagdybiaethau:

- Byddai pum dogfen ganllaw newydd yn cael eu llunio ar y gwelliannau i'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar yr amrywiaeth o feysydd pwnc a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth ar gyfer y cyfundrefnau presennol hynny, sef DAC a chynllunio, harbyrau, priffyrdd, trafnidiaeth a thrydan;
- Un swyddog cynllunio ar lefel uwch-swyddog gweithredol ac un swyddog cynllunio ar lefel swyddog gweithredol uwch o Lywodraeth Cymru yn llunio'r canllawiau. Yr uwch-swyddog gweithredol a fydd yn gyfrifol am eu paratoi, gyda phob dogfen ganllaw'n cymryd tri diwrnod gwaith i'w pharatoi, a'r swyddog gweithredol uwch yn cymeradwyo'r cynnwys, gyda hyd at dair dogfen ganllaw'n cael eu cymeradwyo mewn diwrnod gwaith;
- Mae'r costau staff yn seiliedig ar gostau cyflogau gros blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 wedi'u rhannu yn ôl cyfradd ddyddiol, ar 220 diwrnod gwaith y flwyddyn.

**Atodiad A – Dadansoddiad o gostau PCAC a Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith**

| Cam | Tasg | | **Amser sydd ei Angen ar Gyfartaledd (oriau).**<br><br>**Mae'r cyfansymiau'n gyfwerth â chostau staff (£) yn seiliedig ar oriau staff, wedi'u lluosi â chostau staff gros cyfartalog fesul awr *(mae'r costau staff yn seiliedig ar gostau cyflogau Llywodraeth Cymru a PCAC yn 2022-2023 wedi'u dadansoddi yn ôl band cyflog)*** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Achos cymhlethdod isel** | **Achos cymhlethdod canolig** | **Achos cymhlethdod uchel** | **Gradd Llywodraeth Cymru** |
| Cyn gwneud cais | Cyfarfodydd Cychwyn a Chyngor Cyn Gwneud Cais na chodir tâl amdano (gan gynnwys ymholiadau cyffredinol) | | | | | |
| | | | 3.70 | 3.70 | 3.70 | Cymorth Tîm |
| | | | 2.00 | 2.00 | 2.00 | Swyddog Gweithredol Uwch |
| | | | 4.70 | 6.70 | 12.40 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 333.53 (A.) | 415.06 (a.) | 647.41 (1.) | |
| | Asesiad Effaith Rheoleiddiol – sgrinio a chwmpasu | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 14.80 | 14.80 | 37.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 603.31 (B.) | 603.31 (b.) | 1,508.27 (2.) | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad i dderbyn/gwrthod ei hysbysiad ynghylch cyflwyno cais DAC, gan gynnwys penderfynu p'un ai cais DAC ydyw ai peidio | | | | | |
| | | | 6.70 | 6.70 | 6.70 | Cymorth Tîm |
| | | | | | 1.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 139.63 (C.) | 139.63 (c.) | 180.39 (3.) | |
| | Cyngor ffurfiol cyn gwneud cais, sy'n ymestyn i gyngor 'heb ragfarnu' ar rinweddau cynlluniau arfaethedig yn ogystal ag agweddau gweithdrefnol y broses DAC | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 1.00 | 1.00 | 1.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 7.40 | 7.40 | 14.80 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 322.49 (D.) | 322.49 (d.) | 624.15 (4.) | |
| Gwneud cais | Cofrestru a dilysu'r cais (gan gynnwys digonolrwydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) | | 10.00 | 10.00 | 10.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 2.00 | 2.00 | 4.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 22.20 | 37.00 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 44.40 | Arolygydd G6 |
| | | | 1,588.31 (E.) | 2,453.91 (e.) | 3,581.59 (5.) | |
| | Hysbysu ynghylch y penderfyniad dilysu, gan gynnwys y rhesymau dros beidio â'i ddilysu lle bo hynny'n berthnasol (gan gynnwys cyfieithu) | | 3.00 | 3.00 | 5.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 2.00 | 2.00 | 4.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 3.70 | 3.70 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 3.70 | Arolygydd G6 |
| | | | 360.45 (F.) | 360.45 (f.) | 534.77 (6.) | |
| | Llythyrau hysbysu at ymgyngoreion statudol a sefydliadau a phartïon â diddordeb (gan gynnwys llythyrau | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 7.40 | 7.40 | 14.80 | Cymorth Tîm |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hysbysebu cymdogion a hysbysu Cynghorau Cymuned) | | 1.00 | 1.00 | 2.00 | Swyddog Gweithredol Uwch |
| | | | 186.63 (G.) | 186.63 (g.) | 373.26 (7.) | |
| | Cyhoeddi deunyddiau'r cais ar borth gwaith achos cynllunio PCAC (gan gynnwys darlleniad GDPR) | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 22.20 | 22.20 | 25.90 | Cymorth Tîm |
| | | | 462.64 (H.) | 462.64 (h.) | 539.75 (8.) | |
| | Bwrw golwg dros yr Adroddiad ar yr Effaith Leol ac ymdrin â'r sylwadau | | | | | |
| | | | 2.00 | 2.00 | 2.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 18.50 | 29.60 | 40.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 1.00 | 1.00 | 2.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 467.98 (I.) | 699.30 (i.) | 956.79 (9.) | |
| | Ffi hysbysiad i'r wasg | | | | | |
| | Hysbysiad i'r wasg - cost staff | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 3.00 | 3.00 | 5.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 62.52 (J.) | 62.52 (j.) | 104.20 (10.) | |
| | Arddangos hysbysiad safle (ar gyfer cynigion ar y tir) – ar gyfer ACLlau | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | Cyfarfod cyn archwilio (dewisol) | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | Penderfynu ar ffurflen 'hysbysu ynghylch bwriad i amrywio' a gyflwynwyd yn ôl disgresiwn y datblygwr (dewisol) | | | | | |
| | | | 3.70 | 3.70 | 3.70 | Cymorth Tîm |
| | | | 3.00 | 3.00 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 6.00 | Arolygydd G6 |
| | | | 252.56 (K.) | 252.56 (k.) | 510.91 (11.) | |
| | Penderfynu ar fwriad y ceisydd i amrywio (Swyddog achos i gwblhau gwiriad GDPR / cyhoeddi, Arolygydd i asesu a yw'n dderbyniol) | | | | | |
| | | | 14.80 | 14.80 | 22.20 | Cymorth Tîm |
| | | | 3.00 | 3.00 | 7.40 | Arolygydd G7 |
| | | | | | 6.00 | Arolygydd G6 |
| | | | 483.89 (L.) | 483.89 (l.) | 1,329.24 (12.) | |
| | Atal cais dros dro | | | | | |
| | | | 14.80 | 14.80 | 22.20 | Cymorth Tîm |
| | | | 7.40 | 7.40 | 14.80 | Arolygydd G7 |
| | | | | | | |
| | | | 741.22 (M.) | 741.22 (m.) | 1,328.23 (13.) | |
| Archwilio | Penodi Arolygydd i archwilio'r cais | | 7.40 | 7.40 | 7.40 | Swyddog Gweithredol |
| | | | 1.00 | 1.00 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 1.00 | Arolygydd G6 |
| | | | 1.00 | 1.00 | 1.00 | Dirprwy Gyfarwyddwr |
| | | | 316.41 (N.) | 316.41 (n.) | 330.23 (14.) | |
| | Trefnu ymweliad(au) safle a lleoliadau | | | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | 14.80 | 14.80 | 14.80 | Cymorth Tîm |
| | | | 308.43 (O.) | 308.43 (o.) | 308.43 (15.) | |
| | Penderfynu ar weithdrefn ac amserlen archwilio | | | | | |
| | | | 1.00 | 1.00 | 2.00 | Uwch-swyddog Gweithredol |
| | | | 3.70 | 3.70 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 3.70 | Arolygydd G6 |
| | | | 257.16 (P.) | 257.16 (p.) | 349.04 (16.) | |
| | Opsiwn 1. Sylwadau ysgrifenedig | | | | | |
| | | | | | | |
| | Hysbysebu – ffi | | £1,238.00 (Q.) | £1,530 | £2,100 | |
| | | | | | | |
| | Hysbysebu – cost staff (a dalwyd yn gynharach yn y broses) | | | | | |
| | | | | | | |
| | Llogi Lleoliadau - ffi a chost staff, ddim yn berthnasol i sylwadau ysgrifenedig | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | Opsiwn 2. Gwrandawiad llawr agored | | | | | |
| | Mewnbwn arolygydd i'r sesiynau archwilio | | 22.2 | 44.4 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 74 | Arolygydd G6 |
| | | | £1,298.39 | £2,596.78 | £5,350.23 | |
| | | | | | | |
| | Hysbysebu – ffi | | £2,100 | £2,341 | £2,865 | |
| | | | | | | |
| | Cost Cyfieithu Hysbysebion | | £50 | £50 | £50 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost Staff ar gyfer Cyfieithu Hysbysebion | | 1 | 1 | 1 | Cymorth Tîm |
| | Hysbysebu – cost staff | | 4 | 4 | 6 | Cymorth Tîm |
| | Cyfanswm cost hysbysebu | | £154.20 | £154.20 | £195.88 | |
| | | | | | | |
| | Llogi Lleoliadau – ffi | | £0.00 | £700.00 | £1,050.00 | |
| | Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd | | £3,800.00 | £7,650.00 | £12,000.00 | |
| | Amser Gweinyddwyr Digwyddiadau | | 22.20 | 44.40 | 74.00 | Cymorth Tîm |
| | Llogi Lleoliadau a Gwasanaethau - cost staff | | 11.1 | 11.1 | 11.1 | Swyddog Gweithredol Uwch |
| | Cyfanswm Cost Llogi Lleoliadau | | 4,622.46 | 9,635.10 | 14,951.96 | |
| | | | | | | |
| | Opsiwn 3. Gwrandawiad pwnc-benodol | | | | | |
| | Mewnbwn arolygydd i'r sesiynau archwilio | | 22.2 | 44.4 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 74 | Arolygydd G6 |
| | | | £1,298.39 | £2,596.78 (q.) | £5,350.23 | |
| | | | | | | |
| | Hysbysebu – ffi | | £2,100 | £2,341 (r.) | £2,865 | |
| | | | | | | |
| | Cost Cyfieithu Hysbysebion | | £50 | £50 | £50 | |
| | Cost Staff ar gyfer Cyfieithu Hysbysebion | | 1 | 1 | 1 | Cymorth Tîm |
| | Hysbysebu – cost staff | | 4 | 4 | 6 | Cymorth Tîm |
| | Cyfanswm cost hysbysebu | | 154.20 | 154.20 (s.) | 195.88 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | Llogi Lleoliadau – ffi | | £0.00 | £1,750.00 | £2,100.00 | |
| | Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd | | £3,800.00 | £7,650.00 | £12,000.00 | |
| | Amser Gweinyddwyr Digwyddiadau | | 22.20 | 44.40 | 74.00 | Cymorth Tîm |
| | Llogi Lleoliadau - cost staff | | 7.4 | 7.4 | 7.4 | Swyddog Gweithredol Uwch |
| | Cyfanswm Cost Llogi Lleoliadau | | 4,502.52 | 10,565.16 (t.) | 15,882.02 | |
| | | | | | | |
| | Opsiwn 4. Ymchwiliad | | | | | |
| | Mewnbwn arolygydd i'r sesiynau archwilio | | 22.2 | 44.4 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 74 | Arolygydd G6 |
| | | | £1,298.39 | £2,596.78 | £5,350.23 (17.) | |
| | | | | | | |
| | Hysbysebu – ffi | | £2,100 | £2,341.00 | £2,865.00 (18.) | |
| | | | | | | |
| | Cost Cyfieithu Hysbysebion | | £50.00 | £50.00 | £50.00 | |
| | Cost Staff ar gyfer Cyfieithu Hysbysebion | | 1 | 1 | 1 | Cymorth Tîm |
| | Hysbysebu – cost staff | | 4 | 4 | 6 | Cymorth Tîm |
| | Cyfanswm cost hysbysebu | | 154.20 | 154.20 | 195.88 (19.) | |
| | | | | | | |
| | Llogi Lleoliadau – ffi | | £0.00 | £1,750.00 | £2,100.00 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd | | £3,800.00 | £7,650.00 | £12,000.00 | |
| | Amser Gweinyddwyr Digwyddiadau | | 22.2 | 44.4 | 74 | Cymorth Tîm |
| | Llogi Lleoliadau - cost staff | | 7.4 | 7.4 | 7.4 | Swyddog Gweithredol Uwch |
| | Cyfanswm Cost Llogi Lleoliadau | | 4,502.52 | 10,565.16 | 15,882.02 (20.) | |
| | Yr Arolygydd penodedig yn ystyried yr holl sylwadau/materion a godir ac yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru yn argymell p'un a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio.<br><br>*Mae'r costau hyn ar gyfer archwilio, ar sail graddau ac amser staff ar gyfer archwilio cais DAC, wedi cael eu cysoni â'r ffioedd archwilio a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016. -£870 y dydd am benderfynu ar geisiadau 'cymhlethdod isel' drwy sylwadau ysgrifenedig. -£920 y dydd am benderfynu ar geisiadau cymhlethdod canolig neu uchel drwy wrandawiad neu ymchwiliad.* | | 296 | 644 | | Arolygydd G7 |
| | | | | | 1820 | Arolygydd G6 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 14790.00 (R.) | 32200.00 (u.) | 125120.00 (21.) | |
| | Costau ymgynghorwyr neu aseswyr | | | | | |
| | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | | | | | |
| | Costau teithio a chynhaliaeth (Arolygydd a Gweinyddwr y Digwyddiad) | | 540.00 (S.) | 1080.00 (v.) | 1800.00 (22.) | (£) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorffen ysgrifennu'r adroddiad a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru (gwaith darllen a gwaith gweinyddol gan yr Arolygydd).<br><br>*Mae'r costau hyn ar gyfer archwilio, ar sail graddau ac amser staff ar gyfer archwilio cais DAC, wedi cael eu cysoni â'r ffioedd archwilio a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016. -£870 y dydd am benderfynu ar geisiadau 'cymhlethdod isel' drwy sylwadau ysgrifenedig. -£920 y dydd am benderfynu ar geisiadau cymhlethdod canolig neu uchel drwy wrandawiad neu ymchwiliad.* | | | | | |
| | | | 7.40 | 14.80 | 37.00 | Cymorth Tîm |
| | | | 14.80 | 22.20 | 74.00 | Arolygydd G6 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 1,740.00 (T.) | 1,840.00 (w.) | 6,440.00 (23.) | |
| Ar ôl archwilio | Cyswllt, cywiriadau a gwybodaeth ychwanegol rhwng yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Gangen Penderfyniadau | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 7.40 | 7.40 | 14.80 | Cymorth Tîm |
| | | | 154.21 (U.) | 154.21 (x.) | 308.43 (24.) | |
| | Cyhoeddi'r penderfyniad ac unrhyw ddogfennau perthnasol ar-lein, gan gynnwys cost cyfieithu ychwanegol | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | 144.12 | 364.38 | 428.88 | |
| | | | 7.40 | 7.40 | 7.40 | Cymorth Tîm |
| | | | 298.33 (V.) | 518.59 (y.) | 583.09 (25.) | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio) | Anfon llythyr penderfyniad ynghylch y cais DAC ac unrhyw gydsyniadau eilaidd cysylltiedig. | Swyddog Gweithredol | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | | 0.00 (W.) | 0.00 (z.) | 0.00 (26.) | |
| | | Swyddog Gweithredol Uwch | 37.00 | 103.60 | 148.00 | |
| | | | 1199.41 (X.) | 3358.35 (aa.) | 4797.64 (27.) | |
| | | Uwch-swyddog Gweithredol | 103.60 | 170.20 | 347.80 | |
| | | | 4223.16 (Y.) | 6938.05 (ab.) | 14177.76 (28.) | |
| | | G7 | 14.80 | 51.80 | 103.60 | |
| | | | 788.46 (Z.) | 2759.62 (ac.) | 5519.25 (29.) | |
| | | G5 | 4.00 | 7.40 | 22.20 | |
| | | | 295.27 (AA.) | 546.25 (ad.) | 1638.74 (30.) | |
| Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cyfreithiol) | Cyngor cyfreithiol | G6 | 0.00 | 11.10 | 22.20 | |
| | | | 0.00 (AB.) | 802.53 (ae.) | 1605.07 (31.) | |
| | | G7 | 0.00 | 37.00 | 148.00 | |
| | | | 0.00 (AC.) | 2163.98 (af.) | 8655.93 (32.) | |
| | **Cyfanswm y costau am benderfynu ar geisiadau seilwaith o wahanol lefelau cymhlethdod** | | **Cymhlethdod isel (cyfanswm o A. i AC.) = £32,154.01** | **Cymhlethdod canolig (cyfanswm o a. i af.) = £76,084.34** | **Cymhlethdod uchel (cyfanswm o 1. i 32.) = £208,145.69** | |

| Costau cyflogau Llywodraeth Cymru 2022-23 (£)* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gradd | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Cost Gros Gyfartalog yr Awr | Cost Gros Gyfartalog Ddyddiol |
| Cymorth Tîm** | 33,927 | 2,827 | 20.84 | 154.21 |
| Swyddog Gweithredol | 40,504 | 3,375 | 24.88 | 184.11 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 52,774 | 4,398 | 32.42 | 239.88 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 66,364 | 5,530 | 40.76 | 301.65 |
| G7 | 86,731 | 7,228 | 53.27 | 394.23 |
| G6 | 105,117 | 8,760 | 64.57 | 477.80 |
| Arolygydd G7*** | 95,215 | 7,935 | 58.49 | 432.80 |
| Arolygydd G6 | 117,705 | 9,809 | 72.30 | 535.02 |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 120,174 | 10,015 | 73.82 | 546.25 |

* Rhagdybiaeth o 220 diwrnod gwaith y flwyddyn (260 diwrnod gwaith llai 30 diwrnod o wyliau blynyddol llai 10 diwrnod braint) a 7.4 awr y dydd.

** costau staff 2022-23 a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cyllid ym mis Ionawr 2023.

*** mae'r costau Arolygydd G7 a G6 yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan PCAC fel yr oeddent ar 18 Ionawr 2023.

**Atodiad B – Ceisiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a aseswyd, o fis Ebrill 2013 tan fis Ebrill 2022**

| Enw'r Prosiect | Y gyfundrefn gydsynio y mae'r prosiect yn perthyn iddi | Y gyfundrefn bresennol a fyddai'n cael ei defnyddio i benderfynu ar y prosiect |
|---|---|---|
| Fferm Solar Maesygarn | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| Fferm Solar Cwmcaesingrug | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| Fferm Solar Hendre Fawr | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| Fferm Solar Shotwick | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| Fferm Wynt Bryn Blaen | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| Fferm Wynt Hendy | Caniatâd cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; | DAC |
| A4226 Five Mile Lane | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Cyfleuster ynni cynaliadwy Biomas Egnedol | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |

| | | |
|---|---|---|
| Solar Llanwern | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Sudbrook – Nwy Oriau Brig | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Wauntyswg – Solar | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Valero – Cyfleuster Cydgynhyrchu | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Fferm Solar Llangennech (Solar Penderi / Felinfoel gynt). | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Solar Tycroes | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Cyfleuster Adfer Ynni Môr Hafren | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Upper Ogmore – Tyrbinau Gwynt | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |

| | | |
|---|---|---|
| Parc Solar Blackberry Lane | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Chwarel Buttington – Cyfleuster Adfer Ynni | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Canolfan Ynni Adnewyddadwy Fferm Brynwell | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Ynni Solar Elwy | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Fferm Solar Brynrhyd | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Fferm Wynt Rhoscrowdder | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Fferm Solar Penpergwm | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Parc Solar Traffwll Ltd. | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |

| | | |
|---|---|---|
| Coed Darcy – safle cynhyrchu ynni cronfa wrth gefn weithredol | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Heol Felindre – gorsaf cynhyrchu ynni wrth gefn | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 201- | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Gefnffordd Dowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl) | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |

| | | |
|---|---|---|
| Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd<br><br>Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) (Diwygio) 201- | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd<br><br>Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201- | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |

| | | |
|---|---|---|
| Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd<br><br>Gorchymyn Prynu Gorfodol Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a thraffordd yr M48 (Ffordd gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201- | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd<br><br>Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd<br><br>Cynllun traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Fagwyr i Fan i'r Dwyrain o Gas-bach) a Thrafffordd yr A48(M) (Man i'r Gorllewin o Gas-bach i Laneirwg (Amrywio Amrywiol Gynlluniau) 201- | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen’s Way) 2021 | Gorchmynion o dan a.10, a.14, a.16 neu a.28 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Canolfan Ynni Wrecsam | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Gwella Prosesau Cynhyrchu Pŵer Mewnol ar gyfer Gwaith Dur Port Talbot | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Gorsaf Bŵer Hirwaun | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Gorsaf Bŵer Abergelli | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Morlyn Llanw Bae Abertawe | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | Deddf Trydan 1989 |
| Fferm Wynt Mynydd y Gwynt | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Cyswllt Coedwig Brechfa | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |
| Cyswllt Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru | Gorchmynion Cydsyniad Datblygu o dan a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008; | DAC |

| | | |
|---|---|---|
| Solar Gwynllŵg | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Parth Arddangos Morlais | Gorchmynion o dan a.1 ac a.3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992; | Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd o dan a.1 neu a.3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992. |
| Erebus – Prosiect Arddangos Gwynt Arnofiol ar y Môr | Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan a.36 o Ddeddf Trydan 1989 | Deddf Trydan 1989 |
| Rush Wall Solar Park Ltd | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| EDF Energy Renewables Ltd. Garn Fach, i'r de o'r Drenewydd, Powys. - DNS/3244499 | Caniatâd ar gyfer Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan a.62D o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref | DAC |
| Gorsaf gynhyrchu sy'n llosgi biomas yng Ngwaith Penrhos, Caergybi, Ynys Môn | Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan a.36 o Ddeddf Trydan 1989 | DAC |
| Porthladd Abertawe – Gorchymyn Diwygio Harbwr Morlyn Llanw | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. |

| | | |
|---|---|---|
| Gorchymyn Harbwr Castell-nedd | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. |
| Gorchymyn Diwygio Harbwr Aberdaugleddau (Martello Quays) | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. |
| Gorchymyn Diwygio Harbwr Pont Lwytho Abergwaun | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. |
| Gorchymyn Diwygio Harbwr Caergybi | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964. |